

## LLEISIAU O LAWR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

**Ffatri John Patterson, Ponthenri (hefyd yn cael ei hadnabod fel ffatri John Pattinson ac fel ffatri Fairweather Works); Morris Motors, Felinfoel Llanelli (1952 – 1980egau)**

**Cyfwelai:** VSW003 Glenda Lewis (ac Annie Lewis)

**Dyddiad:** 11.11.13

**Cyfwelydd:** Susan Roberts ar ran Archif Menywod Cymru

**Mae'r cyfweiliad mewn dau ran**

*There is an English summary at the end of the Welsh text*

**Os allen i ddechre, os allen i ofyn i chi beth yw'ch enw chi?**

Glenda: Glenda Margrite Lewis

**00.00.21: A ydych chi'n cofio'r date of birth?**

Glenda: 14th May, 1938.

**00.00.31: Os ewn ni reit nôl i'r dechre te, i ofyn i chi ble gawsoch chi'n geni?**

Glenda: Yn Ponthenri fi'n credu. Fan hyn.

**Dim yn y tŷ 'ma ife?**

Glenda: Fi'n credu taw e, ie. Fi'n credu taw fan hyn o'dd e. Sdim byd 'da fi i ddangos 'nny, ond fan hyn geson ni'n geni ife Annie.

**A beth o'dd ych tad yn neud? Ble o'dd e'n gwitho?**

Glenda: Gwaith glo yn Tymbbl, a lan yn Cynheidre.

Annie: A lan yn Nantffyllon.

Glenda: Nantffyllon o'dd e'n dod lawr man hyn gynta, pan symudodd Mamgu a Tadcu lawr. O'n nhw'n byw lan ar bwys y Baltic fan 'na chi'n gwbod. Symudon nhw lan fan 'na a fan hyn wedyn. Dethon nhw i fyw wedyn 'nny.

**00.01.26: O'dd ych mam yn gwitho ne gatre o'dd hi?**

Glenda: Na, gatre.

**00.01.32: A ble ethoch chi i'r ysgol?**

Glenda: Ponthenri. Ysgol fach Ponthenri o'dd hi.

**O'dd lot o blant 'na pyr'nny?**

Glenda: O’dd lot fach mewn ‘na. O’dd.

**00.01.43: A beth am ar ôl gadel ysgol Ponthenri?**

Glenda: Etho i i witho i’r ffactri wedyn, Ponthenri. A gwitho’n y ffactri bach yna yn neud beth ti’n galw.

Annie: Table cloths.

Glenda: Tablecloths chwel. Ac o fan ‘na wedyn i Morris Motors.

**00.02.00: Pwy oedran o’ch chi’n gadel ysgol?**

Glenda: Fourteen.

Annie: Fifteen ife.

Glenda: Fourteen o’dd e pyr’nny ife.

Annie: Neu fifteen o’dd hi.

Glenda: Fourteen neu fifteen fel ‘na.

**00.02.10: So etho chi i’r ysgol fach fan hyn, etho chi i rywle arall ar ôl ‘nny cyn mynd?**

Glenda: Naddo.

**Ethoch chi’n syth o’r ysgol fach.**

Glenda: I’r ffactri fan hyn. Bues i gatre pythownos. Cwplles i ysgol fan ‘na a etho i lawr i’r ffactri i while am job bach, a wedodd dyn y ffactri, oedd holidês ‘da nhw chwel, ‘you can start after the holidays’. A man ‘na bues i..

**00.02.36: A shwd o’ch chi’n twmlo ymbytu gadel ysgol a mynd i witho?**

Glenda: Sa i’n credu rili.

**O’ch chi’n teimlo’n nerfus?**

O, o’n. Yn yr ysgol, sa i’n cofio nôl mor bell â na chwel. Ma’ hwnna nôl nawr, seventy five years.

**00.02.56: Chi’n cofio’r flwyddyn?**

Mas o ysgol. Nadw.

**00.03.05: Shwd o’ch chi’n mynd ymbytu ca’l job te?**

Wel, mynd lawr i ga’l interview.

**O’ch chi’n gwbod bod y ffactri ‘na?**

Glenda: O’dd y ffactri man ‘na chwel, o’dd hi ‘na.

**O’n nhw’n while am bobol ar y pryd?**

O’dd lot fach yn gwitho fan ‘na cofiwch.

**00.03.16: O’dd lot o Ponthenri?**

Ponthenri o’dd y rhan fwya – dynion y menywod.

**00.03.21: O’dd dynion a menywod ‘na. Pwy o’dd ‘na fwya, dynion neu fenywod?**

Jest ‘run peth fi’n credu. Half and half.

Annie: O’dd ych Anti Sal yn perthyn i chi o’dd hi. O’dd hi’n gwitho ‘na.

Glenda: O’n ni’n ca’l sbri.

**00.03.44: Chi'n cofio'r diwrnod cynta' dechreuoch chi 'na?**

Lawr fan hyn, nadw. Y jobyn nes i gynta, yn y cantîn o'n i. Yn neud te yn y cantîn. O'n i mewn fan 'na yr wthnos gynta, yn neud y te a phethach chi'n gwbod. A wedyn o'n i'n ca'l mynd i'r ffactri fwy wedyn nesa lan ife. Fan 'na o'n nhw'n neud y tablecloth.

Annie: Printo nhw o't ti'n neud.

Glenda: Printo nhw.

**Printo tablecloths o'n nhw?**

Glenda: O'n nhw'n printo tableclothes. O'n nhw'n layo nhw mas fel 'na, ac o'dd rhein yn mynd gro's fan'na. A wedyn o'n nhw'n mynd lan un, un, un, all the way. Bob gwahanieth lliw. Ac o'n nhw'n codi nhw lan yn y nos wedyn 'nny a, iddyn nhw ca'l sychu. O'dd e'n job bach nes man'na cofiwch.

Annie: Bydde ti a rhywun arall 'da ti'n mynd nôl a 'mla'n fel 'na drw'r dydd. Mynd lawr fel 'na drw'r amser, o'r top i'r gwaelod.

**00.04.39: O'dd e'n waith caled te?**

Wel, cerdded drw'r dydd chwel, nôl a mla'n drw'r dydd fel 'na. O'dd e'n hwyr pyr'nny chwel. Bytu wech o'r gloch o'n ni'n cwpla yn y nos wedyn, yn gorfod cliro popeth, chi'n gwbod mas yn y nos, ond enjoio man 'na 'fyd.

**00.04.57: O'ch chi'n gallu cerdded i'r gwaith o fan hyn?**

O'n. Cerdded i'r gwaith.

**00.05.02: Ond o'dd rhai'n dod o lefydd erill siwr o fod o'dd e?**

O'dd. Pontiets, rhai o Pontiets a Pontyberem chwel.

**00.05.07: Fel o'n nhw'n dod te?**

'Da ceir. Ac o'dd bysus yn dod 'ma pyr'nny chwel. O Pontyberem. O'dd bysus yn dod lan yn y bore.

**Service bus neu bys y gwaith o'dd e?**

Na, ordinary bus.

**00.05.23: Chi'n cofio pan o'ch chi'n ca'l y job ac o'ch chi'n ca'l interview, o'ch chi'n gorfod ca'l test i ddangos.**

Glenda: Na, dim byd.

**Beth o'dd ych mam yn gweud bod chi wedi cael job?**

O'dd hi ddim yn gweud dim byd. A chi'n gwbod y diwrnod geses i arian yn y ffactri fan hyn three pound ninety nine o'n ni'n ca'l lawr fan'na.

**00.05.47: A beth o'ch chi'n neud â'r arian?**

Wel, o'n i'n rhoi'n arian i'n fam chwel ife.

**O'ch chi'n rhoi fe i gyd iddi?**

O'n. Rhoi fe gyd iddi. Ac o'ch chi'n ca'l arian poced nôl wedyn chwel dofe.

**00.05.57: Faint o'ch chi'n ca'l nôl wedyn, chi'n cofio?**

Bytu three pound.

Annie: Fi'n cofio Mami amser o'n i'n mynd i Calzonic. O'n i'n rhoi pay packet i gyd i Mami. A Mami'n gweud, 'Nawr te, cadwa pai dy hunan a rhoiwch lodgings, a man'na buon ni.'

**00.06.22: O'ch chi'n hapus bod chi'n gwitho 'na?**

O'n. O'n i'n joio. Joia man'co (Ponthenri) a lawr man'co (Morris Motors).

**00.06.30: Shwd o'dd y cwmni fan hyn te?**

Glena: Gwd, gwd. Yn enwedig gyda'r dynon chi'n gwbod. A ma'r dynon bach 'na i gyd wedi marw nawr chwel.

**00.06.39: O'dd y dynon yn neud jobs gwahanol o'n nhw?**

O'n. O'dd dim dal. O'n nhw'n neud y paent a doddi'r things lan chwel ife. Wel, y merched yn mynd lan i part arall wedyn, a o'dd e'n torri rhain chwel (llieiniau), a gwnio nhw chwel. A wedyn o'n plygu nhw lan fel 'na chi'n gwbod wedyn, a'n Anti Liz wedyn yn torri. Annie a hi o'dd yn torri nhw. O'dd e'n gwbod 'na i chi. Yr unig beth chwel, o'dd dim Union 'da nhw chwel.

**O'dd dim Undeb 'na?**

Glenda: O'dd dim Undeb i ga'l pyr'nny chwel ife?

**00.07.20: Beth o'ch chi'n neud te, os o'dd problem? Ne o'ch chi ddim yn hapus?**

Na, o'n nhw'n cytuno fe 'i hunen.

**O'n nhw'n sorto fe mas i chi?**

O'n nhw'n sorto fe mas. O'n.

**O'n nhw'n fosys itha da?**

O'n, o'n nhw'n gwd.

**00.07.33: Ac o'ch chi'n hapus.**

O'n. Popeth. Wel, o'n i'n gorffod bod o'n ni. Ac o'n i'n joio. Ta le gwithes i, joio i chi.

**O'ch chi'n gwitho'n galed, mae'n amlwg?**

**00.07.48: O'dd rhan fwya o'r menwod o'dd 'na, o'n nhw'n fenywod ifainc?**

Glenda: O'dd rhai ifainc a o'dd rhai hwnna 'na.

**00.07.55: O'dd shiffts 'na te?**

Nago'dd. O'dd dim shiffts fan hyn.

**Jyst shifft dydd te ife?**

Ie. Seven till four ife.

Annie: O's o'dd itha lot o waith o'n ni'n gwitho mla'n tan wech ife.

**00.08.13: A wedyn o'n nhw'n neud y llieini ford, o'n nhw'n neud llieini llestri neu rwbeth arall?**

Na, dim ond tablecloths.

**00.08.20: Ble o’dd rheina’n mynd wedyn te?**

O’n nhw’n hala nhw bant chwel ife. Gwerthu nhw lot.

**O’n nhw’n mynd dros y byd siwr o fod.**

O’n, siwr o fod i chi. Ac o’n nhw’n neud rhai pert ‘na cofiwch. Rhai biwtiffwl.

Annie: O’n ni’n neud rhai satin wedyn ‘nny. A water lilies a pethach. O’n nhw’n bert.

**00.08.39: O’n nhw ddim eisiau unrhyw qualifications arnoch chi i fynd ‘na te?**

Na. Geso i ddim byd eniwe.

**00.08.45: Chi’n cofio rhywun ‘na o’dd ffaelw neud y gwaith?**

Na.

**Achos sdim pawb yn gwitho cystal ydyn nhw?**

Na. O’dd pawb yn olreit fan hyn. O’dd neb â disability o gwblw ‘na.

**Ond o’dd neb ‘na bach yn hopeless chi’n gwbod, achos sdim pawb mor practical a’i gilydd.**

Na, dim le o’n i eniwe. O’dd pawb yn gwd ‘na.

**Ac o’ch chi’n gweud o’dd dim Undeb?**

Na.

**00.09.12: A beth o’dd tu fewn y ffactri’n edrych fel? O’dd lot o sŵn ‘na? O’dd e’n dywyll, o’dd e’n ole?**

Annie: Amser o’n i’n torri table cloths o’n i’n gwitho ..

Glenda: Otherwise o’dd e’n olreit, digon o ole, o’dd hi ddim yn dywyll o gwblw ‘na

**O’dd e ddim yn frwnt?**

Na.

**Achos y teip o beth o’n nhw’n neud ife?**

Ie.

**Achos ma’ rhai ffactris yn, ma’i mwy brwnt ydyw e, gwaith mwy brwnt ‘da ni.**

O’dd e ddim yn frwnt ‘da ni. O’dd e wedi’i cliro mas i gyd. Chi’n cliro’r cwblw mas ife.

Na, o’dd hi’n weddol glan ‘na. O’dd bobman yn lan.

**00.09.51: Y torri o’ch chi’n neud ife (Annie)?**

Annie: Ie. Torri tablecloths. A o’dd rowlars ‘da ni man’na chi’n gwbod. A Sal a fi, fel ‘na o’n ni. O’dd Sal yn gomical. O’dd hi’n lyfli.

Glenda: O’dd hi’n good friend i witho gyda.

**00.10.05: O’ch chi’n ca’l lot o sbort.**

O’n

**O’dd tynnu co’s ‘na?**

Dim lot man'co (Ponthenri.) Ond yn Morris Motors o'dd 'na. Pan o'ch chi'n dechre gwitho chwel ife. O'n nhw'n neud 100.10.23 i chi, chi'n gwbod. O'dd good friends fan 'na 'fyd. Fi still yn friends 'da nhw nawr.

**00.10.25: Ble o'dd well 'da chi te, lawr fan hyn? John Patterson o'dd enw hwna fan hyn ife?**

Glenda/Annie: Ie.

**Neu yn Morris Motors? Ife Morris Motors o'n nhw'n galw fe pyr'nny?**

Morris Motors o'dd wnco mynco yn Llanelli, a wedyn ethon ni lawr i, beth o'dd enw'r llall nawr? Leyland rhwbeth ife.

**British Leyland?**

Glenda: British Leyland wedyn.

**Ar yr un site ne rwle arall?**

Na, Felinfo'l o'dd hwnna i gyd.

Annie: A Fishers wedyn, lawr yr ochor arall?

**O'dd e ar yr un hewl o'dd e?**

O'dd. Ond buon ni ddim fan'na erio'd. Yn Morris Motors buon ni fwy. A'r un job 'da fi jest ers thirty five years, neud y radiators chi'n gwbod i'r ceirs.

Annie: 'Na beth sy' 'na nawr, o'n nhw'n neud radiators aliwminiwm. Gethon ni ddim byth gwitho fan 'na.

Glenda: Na, gethon ni byth hwnna. O'dd hen gwynt terrible 'na.

**00.11.28: O'dd hwnna'n Morris Motors?**

O'dd.

Annie: Ma'n remindo fi o'r oil 'sda fi fan hyn.

Glenda: Na, o'n i'n joio'n Morris Motors.

**00.11.35: O'ch chi'n neud yr un job... Chi'n gwbod o'dd y ffactri'n Ponthenri'n mynd i geued o'dd e? Beth ddigwyddodd?**

Glenda: Geuodd hi lawr.

**O'dd y ddwy ohonoch chi fan nawr yr un pryd?**

Annie: O'dd yn wha'r wedi mynd i Felinfo'l o'n fla'n i. A wedyn ethes i nol o Felinfo'l lawr i'r Alkaline batteries, bues i 'na nine months a geson ni'n tynnu mas.

**Be' gesoch chi redundant fan 'na dofe?**

Annie: Do, chi'n gwbod last in first out. O'dd dim Undeb 'da pyr'nny a da'th Undeb 'na wedyn. Ond ethes i nôl a gethes i'r hen job nôl.

Glenda: O'n nhw'n gwbod o't ti'n good worker twel Annie.

Annie: Treial 'yn gore twel ife.

Glenda: Joies i fan 'na. O'n i'n ca'l lot o sbri 'na.

**00.12.22: Fan hyn (Ponthenri) neu yn Felinfo’l.**

Glenda: Yn Felinfo’l. O’dd sbri fan hyn cofiwch dim yr atmosphere o’dd mynco. O’dd fwy yn gwitho man’co chwel. O’dd bytu thousand yn gwitho ‘na pyr’ny o’dd e?

**Yn Morris Motors o’dd e?**

Glenda: O’dd, o’dd.

**A o’dd yr un faint o ddynon a menywod man’ny ‘fyd?**

O’dd. Fi’n credu o’dd e, o’dd. O’dd. Y part le o’n i chwel, o’dd y menywod yn gwitho ochor hyn a o’dd y dynon ochor draw chwel. Ma’n dependo nawr, pwy teip o job o’n nhw’n neud chwel ife.

**00.12.51: Pwy teip o job o’dd y dynon yn neud te?**

Glenda: O’n nhw’n gorfod ..

Annie: O’n nhw’n torri’r...

Glenda: I neud y radiators i ni.

**00.13.03: O’dd hwnna’n fwy trwm o’dd e?**

Glenda: O’dd, jobyn trwm.

Annie: O’n i ar y radiators yn neud tances mawr, chi’n gwbod, ac o’n nhw mor drwm o’ch chi’n gorfod cario bocsys, llawn o bocsys, o’n nhw’n dod â nhw i chi, chi’n gwbod.

Glenda: Boys yn dod â nhw i chi.

**00.13.17: O’n nhw’n ca’l fwy o pai na chi wedyn?**

Glenda: Sa i’n gwbod.

**So chi’n gwbod.**

Glenda: Sa i’n holi dim byd fel ‘na.

**00.13.25: O’dd Undeb lawr fan ‘na te?**

Yn Morris Motors?

**Yn Morris Motors.**

Glenda: O’dd. O’dd Undeb fan ‘na.

**O’n nhw’n helpu?**

O’n nhw’n good.

**00.13.34: O’ch chi’n talu mewn fan’na wedyn o’ch chi?**

Annie: Every week o’n i’n talu ‘na.

Glenda: Talu mewn wedyn.

**00.13.40: O’dd hwnna’n dod yn streit mas o’r pai?**

Glenda: O’dd, o’dd

**So o’dd rhaid i chi dalu hwnna wedyn o’ch chi?**

Glenda: O’n, o’n i’n talu hwnna chwel. Gwedwch chi bod accident, ma’ hwnna ‘da ti i gwmpo, i ddod mas os e, i helpu chi chi’n gwbod, os os rhwbeth yn mynd yn rong ne rhwbeth fel ‘na ife.

**00.13.57: O’dd accidents yn digwydd ‘na ambell i waith?**

Annie: Dim ‘da ni.

Glenda: Dim o ran ‘da ni ife. Dim rili, rili. Galle fe ddigwydd chwel, accident ne rwbeth fel ‘na.

**00.14.10: So dechreuoch chi fanna (Glenda) a am faint buoch chi ‘na nes bod chi’n dechre te Annie?**

Glenda: Gwples di gynta dofe.

Annie: Do.

Glenda: A des di nôl.

Annie: Bydden i thirty five years oni bai bod fi, two years o’n i wedi mynd o fan hyn.

**Ond beth gesoch chi dod fan hyn te (nôl i Bonthenri/ffatri Alkaline)?**

Annie: Es i’n dost chwel, a gethes i gall bladder, ac o’n i ffaelu neud y job. Wedodd Dadi ma’ rhaid i ti paco fe mewn.

**Achos bod y jobyn yn drwm?**

Annie: O, ie. O’n i’n colli gwaith chi’n gwbod. O’n nhw’n lyfli lan fan ‘na chi’n gwbod, ac ar ôl i fi ga’l operation wrth gwrs es i nôl wedyn.

Glenda: Bues di two years ife?

Annie: Ie.

Glenda: Des di nôl wedyn, dofe, ac o’n i ‘na o dy fla’n di.

Annie: Two years yn bring o’n i.

Glenda: Bydde ti di bod yn thirty two wedyn.

**00.15.06: Ond o’dd dim problem ca’l jobyn nôl.**

Annie: Na.

Glenda: Gas hi jobyn nôl streit awe.

**00.15.14: O’ch chi’ch dwy’n neud yr un teip o job yn Morris Motors?**

Glenda: O’n. Fi ffaelu’n deg a ffindo’n llunie i.

Annie: O’n i ar bwys ‘yn gilydd.

Glenda: ‘Da’n gilydd. A wedyn bydde pwy ddiwrnod bydde nhw ddim yn gwbod pwy o’dd pwy.

**O’n nhw’n drysu rhyngoch chi?**

O’n nhw ddim yn gwbod p’un o’dd Annie a p’un o’dd Glenda. Ac o’n ni’n gweud ‘tho nhw am ddodi .... fan hyn. Na, o’dd e’n good ‘na.

**00.15.32: Pwy fath o dynnu co’s o’dd ‘na, o’ch chi’n siarad bod lot o sbort?**

Annie: O’dd dyn ‘da ni, yn labouro, o’dd dim dal beth o’dd yn dod mas ‘da fe.

Glenda: O’dd un merch fach yn eishte, a chi’n gwbod y snakes ‘ma chi’n gwbod, yr artiffisial ‘na. A o’dd bocsys ‘da ni chwel, a o’dd things mewn yn y bocsys, wel dododd e hwnna mewn yn y bocs chwel, a hwpudd hi llaw mewn fanna, a gytshodd hi ynnddi, Iesu, a o’dd stwff ymbytu’r lle ‘na i gyd. O, y sgrechen.

Annie: O’dd e’n ddrwg o’dd e Glenda.

Glenda: Ie. A o’dd y dyn hyn pan dechreues i gynta, a o’dd artiffisial un o rain (BYS) ‘da fe chwel. A o’dd e wedi dangos bod e wedi torri bys chi’n gwbod. Ac o’dd e’n cario fe lawr yn ‘i law a dangos e i fi. A wedodd e nele fe byth o’ fe ‘to. O’dd y tric mynd i agor nawr nawrte, ac o’dd e’n gweld bod fi’n mynd yn wyn, chwel ife.



### **O'ch chi'n mynd i ffeinto?**

O'dd. Na'th e byth o' fe wedyn.

### **Syrfo fe'n reit.**

Glenda: O'dd un boi, o'dd dim dal beth o'dd e'n neud. O'ch chi'n gorfod watsho chi'n gwbod. Ac o'dd e'n doddi'r blydi snêcs 'na wedyn mewn yn y bocsys wedyn 'nny. Ac o'dd y ferch fan hyn, twins o'n nhw. A dododd hi llaw, a gytshodd hi ynddo fe mas, towlodd y cwbl mas ymbytu'r lle i gyd 'na. O'dd e'n gomical.

Annie: A o'dd e'n doddi corryn mawr wedyn.

Glenda: O'dd

Annie: O'dd e'n ddrwg.

### **00.17.06: O'ch chi'n ca'l tipyn o sbort te?**

#### **O'dd supervisor gyda chi, ne fel o'dd e'n gwitho lawr 'na?**

Glenda: O'dd supervisor 'na. O'dd dau neu dri 'da ni ar y section. Wedyn, se chi'n moyn gwbod rhwbeth, ne rhwbeth yn mynd yn rong, o'ch chi'n mynd ato fe wedyn chwel.

Annie: O'dd e'n ddyn ffein. O'dd e'n gweud nawr, 'Dere i ni ga'l mynd lan nawr, mae'n neis heddi, ewn ni lan i Swiss Valley nawr, ac o'n ni'n wherthin.

Glenda: Mynd i Bluebells ife. Achos o'n i'n left-hander, chwel, o'dd e'n gweud 'tho fi, 'gwranda nawr, waita nawr, bydd rhaid i fi whilo ford fach i ti, left-hander. Sefa fan'na, fydda i'n ôl e nawr.' Wel, o'n nhw'n neud y gwaith, fel o'n i'n gwitho fel 'na chwel, o'n i'n gwitho nôl fel 'na wedyn chwel. Marcon ni mas y ford i fi fan 'na chwel, a wedyn o'n i'n gwitho fel 'na chwaith. A dynon yn dod wedyn i fisito'r ffactori chi'n gwbod ife, a o'n nhw'n mynd â nhw ato i o hyd, ato i o'n nhw'n dod o hyd.

### **Pam 'nny te?**

Achos bod fi'n left-hander, chwel. Dangos fe o'n i'n neud. Pawb arall yn right-hand chwel. A dim ond fi o'dd e'n neud e fel left-hander chwel. Ond o'n i'n gallu neud y job 'run peth â pawb arall.

### **00.18.20: O'dd y supervisors yn strict te?**

Nagon, dim rili. O'n nhw'n neis.

### **00.18.24: O'ch chi'n ca'l siarad wrth bod chi'n gwitho?**

O'n, o'n. O'n ni'n ca'l siarad.

### **00.18.32: O'n nhw'n whare miwsig ne rwbeth 'na chi'n gwbod. Beth o'ch chi'n neud i**

..

Annie: 'Na, o'dd dim miwsig 'da ni.

### **O'dd gormod o sŵn falle o'dd e.**

Glenda: O'dd. Gormod o sŵn.

Annie: Gyda'r rollers chwel, yn torri.

### **00.18.44: O'ch chi'n gwitho mewn section gyda'ch gilydd?**

Glenda: O'dd 'bytu wyth ne naw man hyn falle, a peth draw fan 'na. Pawb i un sgwaryn. Wy' ffaelu'n deg a ffindo'r blydi llun 'na i ddangos i chi.

### **Falle ffindwch chi fe 'to.**

Glenda: Af i whileo fe. O’dd thing sgwâr ‘da ni, y ford ‘na. Geson ni llunie wedi tynnu, yn yr Evening Post o’dd ‘yn llunie ni lawr yn y papur.

Annie: O’n ni ar section chwel, o’dd section man hyn a section man ‘na. O’n ni gyd yn yr un man, chi’n gwbod.

Glenda: Pawb yn yr un man, gyda’i gilydd chi’n gwbod.

**00.19.16: O’dd pawb yn dod mla’n wedyn?**

Annie: O’dd.

Glenda: O’dd, gwd. O’n.

**00.19.19: Beth o’ch chi’n neud os o’dd rhywun bach yn lletwhith? Chi’n gwbod, chi’n ca’l rhai ambell waith.**

Annie: Awkward people. O’n i ddim yn boddran wedyn dofe.

Glenda: Gwitho ni ddim gyda neb awkward dofe, lan ffor’ ‘na ‘da ni. O’dd pawb yn good. A chi’n gwbod os o’dd rhywun ar ôl gyda’i gilydd ife o’dd pawb yn helpu’i gilydd ife, neud y section lan ife.

**00.19.45: O’dd targets ‘da chi te?**

Glenda: O’dd targets ‘da ni chwel ife. O’n ni’n ca’l bytu wel fifty neu thirty o reina i neud y dydd. Wel, wedyn falle bydde chi ar ôl falle. O’dd un o reinco’n dod i helpu chi wedyn ‘nny i llanw fe lan.

**Whare teg ife?**

Glenda: O’dd good cwmpni ‘da ni ife.

Annie: Y blydi bos ‘na o’dd yn mynd ar ‘yn nerfs i.

**00.20.06: Hwnna o Bontyberem o’ch chi’n gweud?**

Annie: O’dd ‘i frawd e, gethes i fynd i job arall chwel, o’n i’n meddwl ca’l ‘i neud yn redundant. Ac o’dd boi wedi gweud ar y board bod vacancies ar y presses, a wedodd Glenda dod e mewn. Reites i notis i’r offis a halon nhw nôl i fi bod job i fi. O’n i’n mynd i ddechre, o’n i’n joio ar y presses ‘da’r dynon chi’n gwbod, a o’n nhw’n compleinan wedyn bod fi wedi ca’l y job. O’dd digon o hwnna i ddodi lan chi’n gwbod ife.

**Jelys ife.**

Glenda: O’dd y sections o’n i’n gwitho, o’dd company good fan ‘na. Pawb ‘na. A fan’na buon ni’r holl flynydde ‘na.

Annie: Ond da’th redundancy wedyn a gymres i voluntary.

**00.20.52: Shwd o’ch chi’n twmlo’n gwitho’n galed fan’na, o’ch chi ar ych tra’d drw’r dydd o’ch chi?, ne o’ch chi’n gallu ishte lawr?**

Glenda: O’dd sete ‘da ni ble o’n ni Annie?

Annie: O’dd sete ‘da ni ble o’n ni’n neud y radiator ac o’n ni ar ‘yn tra’d wedyn i tiwbo nhw, chi’n gwbod. O’n ni’n gorfod sefyll ar ‘yn tra’d i tiwbo nhw.

**00.21.10: Shwd o’ch chi’n twmlo ar ôl dod gatre o’r gwaith yn y nos? O’ch chi’n twmlo wedi blino?**

Annie: O’dd hon yn.

Glenda: Sa i’n gwbod.

Annie: Ma’ hon yn blino, wyt ti?

Glenda: Sa i’n cofio nôl mor nôl â ‘na. O’n i’n olreit fi’n credu.

**00.21.26: O’dd y menywod erill o’dd yn gwitho ‘na, chi’n gw bod, o’dd rhai menywod yn briod ‘na o’ch chi’n gweud ife, amser o’n nhw’n ca’l plant o’n nhw aros mla’n ‘na ne o’n nhw’n cwpla wedyn?**

Glenda: O’n nhw’n cwpla, a wedyn yn ca’l plant. Fi’n credu o’dd rhai ohonyn nhw’n dod chwel ife.

**00.21.43: O’dd shiffts man ‘nny te, o’dd shiffts yn Morris Motors?**

O’n ni’n neud six till two, a two till ten, a bues i’n gwitho yn wthnos shifft nos. Un waith fi ‘di neud shifft.

**00.22.03: O’ch chi moyn shifft nos?**

Glenda: Nagon, o’n i ddim yn moyn neud e ond o’n i’n gorfod chwel ife?

**O’ch chi’n gorfod neud e?**

Ie. Wel, o’dd ishe’r gwaith mas chwel ife.

**00.22.13: I ga’l neud ordor ne rwbeth ife?**

Glenda: I gwplar ordor o’dd e, na’i gyd. O’n i wrth ‘yn hunan fach fan ‘na drw’r nos. A’r bois yn cario, ‘dere mla’n, mae’n amser i ti gwplawr, dere, pac hi lan,’ o’dd e’n gweud. O’n i’n mynd gatre wedyn. O’n nhw’n gw d i chi.

**Fel o’ch chi’n mynd gatre wedyn? O’dd bysus yn mynd?**

Glenda: O’dd bysus yn dod pyr’nny.

**Bysus y gwaith ife?**

Bysus gwaith.

Annie: Ne’ o’n i’n ca’l lifft ‘da rhai ‘da car.

Glenda: Ie, lifft. O’n i’n ca’l lifft. Ond rhan fwya buon ni shifft dydd chwel. Half past seven o’dd e pyr’nny wedyn ‘nny dofe, half past seven till four.

**00.22.48: A pwy amser o’ch chi’n gadel Ponthenri wedyn?**

Glenda: Yn y bore? Quarter to seven. Bys yn dod i ôl ni am quarter to seven.

**Itha cynnar.**

Glenda: O’dd. O’dd e yn. O’n i’n mynd withe half past five yn y bore.

**00.23.03: Ond o’ch chi dal yn ca’l bys y gwaith pyr’nny ne lifft o’ch chi’n ca’l?**

Glenda: Na, bys yn dod i ôl ni o’r sgwâr. Double Decker bysus yn dod i ôl ni pyr’nny.

Annie: Ac o’n ni’n mynd mewn ‘da’r miners i Cynheidre. O’dd lot o miners ‘da ni.

Glenda: O’n ni’n mynd un tro ‘da’r bys, o’dd eira ‘da ddi ac o’dd Teresa ‘da ni ar y bys pyr’nny. O’dd hi’n gwitho ‘da ni. A pawb yn mynd lan lofft i eishte ar y bys chwel. Yn lle ishte lawr llawr. Mynd lan i Cynheidre, lan fan’na nawr, a nôl, a da’th y bys .. (FFÔN YN CANU.)

**00.23.39: Ewn ni nôl fan ‘na. O’ch chi’n siarad am y bys.**

Glenda: A mynd lan y bys, a’r bys yn mynd lan chwel, sgidodd y bys nôl fan ‘na chwel. A while am Teresa, a o’dd hi wedi cwmpo ar y llawr, mewn yn y bys.

**O’dd hi’n olreit te?**

O’dd hi’n olreit. O’n i’n ca’l sbri chwel.

**Bys o’dd Morris Motors wedi doddi mla’n oedd hwnna, ne service bys.**

Glenda: Service bus.

**00.24.05: O’dd tipyn o bawb ar honna wedyn?**

Glenda: O’n, ni i gyd. Faint o’n i, bytu deg ife Annie?

Annie: Ie, bytu deg.

**Deg ohono chi o fan hyn yn mynd i Morris Motors?**

Glenda: Wel, ma’ Teresa wedi mynd chwel, ma’ Ann Conway wedi mynd, dim ond fi a ti sydd ar ôl.

Annie: Ie, o Ponthenri, ie.

Glenda: I fynd fanna.

Annie: O’dd Ann yn y bore, o’n i’n gorfod mynd lan i ddihuno Ann. O’dd hi’n gwely. A o’dd hi ddim yn neud ‘run peth â ni. Cnoco ar Ann, a o’n i’n gweud, ‘dere mla’n Ann’. ‘Beth o’r gloch yw hi’, jwmpo mas.

**00.24.38: Beth o’ch chi’n neud os o’dd y bys yn mynd hebdo chi te? O’ch chi’n colli shifft wedyn?**

Glenda: Dala bys arall wedyn chwel ife.

**00.24.45: O’ch chi’n ca’l mynd mewn yn hwyr te?**

Glenda: O’n. O’n i’n ca’l mynd mewn.

Annie: ‘The bus is late’, o’n ni’n gweud.

**00.24.55: Chi’n cofio faint o’ch chi’n ennill ‘na?**

Glenda: Chi’n gofyn rhwbeth nawr. Sa i’n cofio.

**Mae’n sbel yn ôl, o’dd e?**

Annie: O’dd.

Glenda: Bytu, ti’n credu geso ni bytu hundred pound o’n i’n ca’l pyr’nny. Ti’n cofio? Sa i’n cofio hwnna.

**O’ch chi’n ca’l e’n cash wedyn o’ch chi?**

Glenda: O’n, pyr’nny.

**O’ch chi’n ca’l pacyn pai.**

Glenda: Pacyn pai, ie.

**Bob wthnos?**

Glenda: O’dd. Bob wthnos o’n i’n ca’l e, acha dydd Gwener.

Annie: O’n nhw’n dod wedyn chi’n gwbod, o’n nhw’n gofyn wedyn, ble o’n ni’n moyn yr arian.

Glenda: Stopon nhw wedyn i dalu’r arian yn y ffactori, so da’th dynon dod mas o’r banc chi’n gwbod. Barclays a rheina, a PSC ife. Da’th merch fach ato i i Barclays, so joins i Barclays wedyn. A o’dd yr arian yn mynd mewn i’r banc wedyn bob wthnos wedyn.

Annie: O’dd e’n whith pido ca’l arian iawn ife, ond o’dd y dyn yn gweud, ‘you’ll be better off’.

Glenda: 'What am I going to now, what I'm going to do now, wedes i, I haven't got any money. Don't worry now wedodd e, you see you'll be better off your money going in the bank wedodd e.

**00.26.15: I beth o'ch chi'n iwso'r arian fwya? O'ch chi'n ca'l yr arian, bob wythnos, a o'ch chi'n meddwl, reit, beth fi'n mynd i neud â fe nawr.? Ble o'dd rhan fwya fe'n mynd?**

Annie: Bwyd o'n i'n hala fe fwya.

Glenda: Bwyd fwya. A pyrnu dillad.

Annie: O, ie. O'n ni'n lico pyrnu dillad.

**O'dd unrhyw percs i ga'l yn Morris Motors?**

Glenda: Unrhyw beth?

**Unrhyw percs?**

Chi'n gwbod, os o'ch chi'n gwitho mewn falle allech chi wedi ca'l discownt ne rwbeth, ond achos taw ffatri geir.

Glenda: O'dd dim byd discownt fel 'na 'da ni.

**00.26.49: O'dd unrhywbeth amser Nadolig? O'n nhw'n rhoi rhywbeth i chi?**

Glenda: Nagon.

**Beth os o'ch chi..**

Glenda: O'dd Christmas party 'da ni 'na. O'n ni'n ca'l parties bach 'na. A last Christmas chwel ife.

**Yn y ffactri?**

Glenda: Yn y ffactri. Pawb yn dod a pethach eu hunen 'da nhw. A merched ifaine yn dod â poteli chi'n gwbod, a cwato nhw'n y mewn fan 'na ife.

Annie: A cario nhw'n dawel fel 'na'n mynd mewn i'r gwaith.

Glenda: O'dd rhai'n dod mewn chwel, ac o'n nhw'n yfed 'na, a mynd i'r dre ac o'n nhw'n neud ffys yn dre chwel. Stopon nhw hwnna wedyn chwel ife. Ond o'n ni'n ca'l neud parti. O'n ni'n doddi ford fawr fel 'na chi'n gwbod, ac o'dd pawb yn doddi bwyd ar y ford chi'n gwbod.

**00.27.31: O'dd e'n lot o sbort siwr o fod?**

Glenda: Duw, o'dd.

Annie: Geson ni barti lyfli amser ddibennon ni.

Glenda: Do. Geson ni bobo watsh.

**00.27.42: Y gwaith o'dd yn rhoi hwnna wedyn?**

Glenda: Ie, ie. Twenty five years.

Annie: O'dd e'n biwtiffwl o'dd e.

**O'ch chi'n twmlo bod nhw'n edrych ar ych ole chi?**

Glenda: O'n. O'n nhw'n gwd. Ie. A chi'n gwbod amser marwodd 'yn fam chi'n gwbod, o'dd hi'n wael yn yr hospital. O'dd ffôn yn dod i Morris Motors i weud am ddod lawr chi'n gwbod ife. O'dd car yn mynd â ni gatre, dod lawr â ni gatre fan hyn i Ponthenri. Gwd i chi.

Annie: Ac o'n nhw'n dweud 'anytime', ac erbyn bod ni'n mynd lawr o'dd Mami'n wake ife.

**00.28.13: Pwy o'dd y bosys te? Pwy o'n nhw? Pobol o rownd ffor' hyn o'n nhw?**

Glenda: Na. O'dd bosys ni, beth o'dd enw fe nawr? Rowley ife?

Annie: Ie, o bant o'dd e.

Glenda: Ie, fe o'dd y bos te. Ma' fe wedi marw nawr, pŵr dab. O'dd e'n byw yn Cynheidre.

**00.28.32: Pwy iaith o'dd rhan fwya' o bobol yn siarad?**

Annie: Saesneg

Glenda: Saesneg fwya, a Cymra'g.

**O'ch chi'n gweld hwnna'n 'whith te, bod pawb yn siarad Saesneg?**

Glenda: Na. Rhywun o'dd yn gallu siarad Cymra'g, o'n nhw'n siarad Cymra'g. O'n nhw ddim yn stopo ni siarad Cymra'g 'na cofiwch.

**00.28.50: Ydych chi'n cofio os o'dd unrhyw rules gyda nhw?**

Glenda: Na.

**Achos taw ffactri o'dd e, chi'n gorfod bod yn strict ar rai pethe y'ch chi?**

Glenda: O'dd dim byd fel 'na ble o'n i.

**O'ch chi ddim yn ca'l byta ble o'ch chi?**

Glenda: O'n i'n gallu mynd i'r cantfn 'da ni chwel. Ac o'ch chi'n gallu byta. Amser cino, o'n ni'n ca'l bwyd ar y factory floor, ond stopon nhw hwnna wedyn.

**00.29.15: O'ch chi'n gallu ca'l fel sangwej ne rwbeth?**

Glenda: Sangwej ne rwbeth fel 'na, chi'n gwobod chwel ife. O'dd thing, yn y bore wedyn o'dd thing yn dod rownd ac o'ch chi'n gallu ca'l, ordro tost ne, ne sosej ne rwbeth fel 'na, i frecwast ac o'dd hi'n dod lawr â nhw ar trê chi'n gwobod ife, i'r ffactri. A o'dd pawb yn pigo e wedyn. O'dd hwnna 'da ni yn y bore.

Annie: O'dd lle ar y shop floor i chi ga'l mynd mewn a byta bwyd 'na chi'n gwobod.

Glenda: A da'th y Chinese [? Japanese efallai] 'na wedyn, a chi'n gwobod rheina o'n ni'n byta bwyd yn yr un man â chi. Dim room 'i hunen 'da nhw, o'n nhw'n byta yn y cantfn 'run man â pawb arall. A o'n nhw'n lan te. O'n nhw spotless chi'n gwobod. Ac o'dd no problem 'da nhw o'dd e.

Annie: O'n i wedi dibennu pyr'nny.

Glenda: Ond geso i wedyn 'nny, beth ti'n galw fe, paper weight chi'n gwobod, gold man'co, am serfo nhw forty years. Ola i fe i chi ca'l gweld e nawr.

**00.30.25: Chi wedi dod â paperweight fan 'na. Allwch chi weud 'tho fi rhwbeth ymbytu fe?**

Glenda: O'n ni'n ca'l rhein nawr, amser o'dd forty years y ffactori.

**00.30.36: Amser o'dd y ffactori yn forty.**

Glenda: Yn 70, ie. Forty years ac o'n i'n cael un o rein.

**00.30.43: O'dd pawb yn ca'l un?**

Glenda: Mwy na thebyg, do. A potel o champagne.

**'Na neis. Yfoch chi'r botel?**

Glenda: Na, sa i'n credu. Ma'i still mewn man'co.

**Bydd ishe i chi agor hi cyn bod hir te?**

Glenda: Chi'n gwbod, o'n i 'di cwpla pyr'nny chwel. A haes i ôl rhwbeth fan'na a wedodd hi, 'go up to the canteen', wedodd hi, 'and get your champagne'. Ma'i mewn fan'na fi'n credu.

Annie: Ma'i still mewn 'na.

Glenda: Ma' hwnna (PAPERWEIGHT) yn bert ondywe?

**Ydy, ma'i yn bert.**

Annie: Ble ma'r beiro o'dd 'da te Glennie? Ma' beiro fod yn sownd wrtho fe nago's e?

Glenda: Nago's. Na, ma' hwnna fan'na.

Annie: Ges di rhwbeth?

Glenda: Naddo.

Annie: Sdim beiro i hwnna.

Glenda: Na, paperweight yw e.

**00.31.42: O'ch chi'n gweud bod Undeb 'na yn Morris Motors?**

Glenda: O'dd, o'dd.

**O'n nhw'n gwd?**

Glenda: O'n, gwd.

**Pwy o'n nhw?**

Annie: General transport ife?

Glenda: Fi'n credu taw e, ie.

**00.31.56: Ife dynon neu menywod o'dd yn rhedeg yr Undeb?**

O'dd peth dynon a menywod 'na.

**So o'ch chi'n gallu mynd atyn nhw wedyn os o'dd problem?**

Glenda: Os o'dd problem 'da chi o'ch chi'n gallu mynd atyn nhw wedyn.

**O'n nhw'n sorto fe mas i chi?**

Glenda: O'n, o'n.

Annie: O'n nhw'n gwd.

**00.32.11: A shwd o'n nhw'n dod 'mla'n 'da'r bosys?**

Glenda: Olreit, fi'n credu. O'n.

**00.32.10: O'ch chi'n gorfod gwishgo rhwbeth speshal yn Morris Motors?**

Glenda: Dim ond overall. Overall green o'dd 'da ni.

**00.32.26: O'n nhw'n rhoi fe i chi?**

Glenda: O'n. O'n i'n ca'l rheina'n y gwaith.

**O'ch chi'n gorfod golchi rheina ych hunain wedyn?**

Glenda: O'n, o'n.

Annie: O'n nhw'n golchi nhw, ond o'n i'n dod gatre â nhw i olchi nhw'n hunan chi'n gwbod.

**00.32.40: O'dd rhwbeth ar ych pen wedyn?**

Glenda: Nago'dd.

**A beth am y tra'd?**

Glenda: Ordinary shoes.... ordinary shoes.

**00.32.54: O'dd y gwaith yn beryglus o gwbl, yn ddi-sherus?**

Glenda: O'ch chi'n gorfod watsho. O'n ni'n gwishgo gloves.

Annie: O'n i ddim yn ca'l gwishgo sandals.

Glenda: No sandals.

Annie: Achos hard toes chi'n gwbod. Lle bod nhw'n cwmpo ar ych bysedd chi.

**00.33.15: Chi'n credu bod y gwaith o'ch chi'n neud wedi effeithio chi rhywffordd?**

Glenda: Na, dim rili.

**Ma' ambell i fenyw wy' wedi siarad â hi, dim yn Morris Motors, achos y gwaith o'n nhw wedi neud bod e wedi effecto'u bysedd nhw, ac ambell waith 'u llyged nhw.**

Glenda: Na. Chi'n gwbod o'n ni'n gorfod gwishgo gloves chwel ife. Se chi'n ca'l cwt ne rwbeth. Gele chi gwt yn rhwydd chwel ife.

Annie: O'dd asid ynddo nhw chwel.

Glenda: Ac o'dd asid ynddyn nhw.

Annie: O'ch chi'n gorfod gwishgo plastig odano a gloves ar y top.

Glenda: O'ch chi'n ca'l hwnna 'da nhw, gloves 'da nhw.

**Wedech chi ddim o'dd e'n waith o'dd yn effecto'r iechyd te?**

Glenda: Dim rili, 'na.

**00.34.06: Chi'n cofio unrhyw un yn ca'l accident?**

Glenda: Na, dim ar section 'nny. O'dd hi'n deidi lle o'n ni. Na, o'dd dim neb yn ca'l accident fanna.

**00.34.20: Chi'n cofio am unrhyw 'rules', unrhyw reole, chi'n gwbod? Blynydde nôl o'dd lot yn smoco o'dd e, o'n nhw'n gorfod mynd mas...?**

Glenda: O'n nhw'n smoco pyr'nny, mewn 'na pyr'nny.

Annie: Nes bod nhw'n stopo nhw. A o'n nhw'n smoco, a chi'n gwbod beth o'n nhw'n neud? O'n nhw'n dod stwff, towlu nhw mewn i'r bocsys o'n ni'n ca'l chi'n gwbod.

**Pwy o'dd yn neud 'na?**

Glenda: Y merched.

Annie: Rheina o'dd yn neud nhw chwel ife. A o'n nhw'n towlu nhw mewn. Ac o'ch chi'n ca'l boc wedyn ac o'dd gwynt y stwmps yn troi arno chi.

**O'ch chi ddim yn smoco?**

Glenda: Nagon.

Annie: Na. Weithe o'n i'n towlu talcum powder. O'n i ffaelu stico gwynt y sigarets.

Glenda: O'dd ambell i un, o'dd gwynt sigarets terrible arnyn nhw.

**Mae'n stico ondywe – y gwynt.**

Glenda: Ydy. Fi'n hato rhywbeth fel 'na.

Annie: Fi'n hato gweld rhywun yn towlu sigaret o bla'n chi. Ma' fe'n troi arno i.

Glenda: O'dd 'yn wnewl i'n dod gatre o'r gwaith, yn dod mewn yn y nos, chi'n gwbod. Ac o'n i'n dod overall i wrth gwt y cwpwrt man'na chi'n gwbod ife. O'dd e'n dod i'r ty a'n



dodi'i got e ar ben 'yn overall i. Chi'n gwbod allen i ddim a gwishgo honna 'fory. O'dd gwynt arno fe. O'n i'n golchi ddi streit awê. Sa i'n lico fe nawr eniwê.

**00.35.43: Dodon nhw stop ar bobol yn smoco mewn 'na wedyn dofe?**

Glenda: Siwr o fod.

Annie: Os o'n nhw moyn sigaret, o'dd rhaid iddyn nhw fynd i'r cafeteria. Falle bod nhw wedi stopo fe nawr falle.

**Achos celen nhw ddim smoco yn y cafeteria nawr celen nhw.**

Annie: 'Na'r peth gore ma' nhw wedi'i neud yw stopo sigarets yn caffî. Gwedwch chi bod lle 'da chi fan'na dofe, yn smoco, a lle fan'na ddim yn smoco, ma' still y gwynt yn dod nage fe.

**00.36.13: Os o'dd rhywun yn smoco yn y gwaith ar bwys chi o'ch chi'n gweud 'tho nhw?**

Annie: O'n i'n gweud, 'put your cigarette that way'.

**00.36.20: O'dd y lle yn lan, gwedwch chi y toilets a pethach fel 'na?**

Annie: O'n. O'n nhw'n dod bob bore i glanhau'r toilets.

Glenda: Popeth 'na.

**O'dd rhywun yn dod i glanhau 'na o'dd e?**

Glenda: A cleaners yn dod a glanhau rownd y ffactori.

**Dynon ne menywod o'dd rheina pyr'nny?**

Glenda: O'dd un dyn bach 'da ni o'dd e. A menywod.

Annie: O'n nhw'n dod i glanhau'r sections ble o'n ni'n gwitho, chi'n gwbod, yn spotless.

Glenda: Brwsho lan bob bore. Rownd 'na, rili. O'dd no problem 'da fi at all yn Morris Motors. O'n nhw'n good.

Annie: Pan o'n i ar ben, o'n i'n mynd i ôl brwsh a brwsho rownd ife.

**00.36.59: Pam i'ch chi'n meddwl nôl am ych amser chi'n Morris Motors, shwd ych chi'n twmlo?**

Glenda: Na, fi'n olreit.

**Chi'n twmlo bod chi wedi joio?**

Glenda: O'n i'n joio'n Morris Motors, joio.

**Beth o'ch chi'n joio fwya 'na?**

Glenda: Wel, neud y job, a'r ffrindie. Chi'n gwbod, ma' lot o ffrindie bach wedi mynd nawr chi'n gwbod ife? O'dd mwy o ffrindie 'da fi'n Felinfoel, na beth 'sda fi'n Ponthenri a gweud y gwir 'tho chi. Fan'na ma'n ffrindie i i gyd nawr.

**00.37.28: O'ch chi'n gwitho'n agos.**

Glenda: O'n pawb. A os fi'n mynd i'r dre, chi'n gwbod. Ma'n nhw'n stopo a chi'n gweud, 'pwy o'dd hwnna te', a bydde Annie'n gweud, 'so ti'n cofio fe', bydde hi'n gweud 'tho fi. A pawb yn siarad â fi chi'n gwbod ife dofe. Ambell weithe, ma' ffrind i fi o man'co, yn byw draw man'co a os bydd hi'n dre bydd hi'n gweld dynon yn siarad â fi, 'How do you know him then?'. 'That boy used to work with me in Morris Motors,' wy'n weud 'tho fe.

**00.37.57: O’ch chi ddim yn mynd yn ffed yp o neud yr un job?**

Glenda: Na, nagon i. Dim rili. Siwrne o’n i’n neud y job yn y dydd, mynd gatre wedyn ‘nny a dim meddwl am gwaith wedyn ‘nny ife, chi’n gwbod. Setlo lawr ‘da rhwbeth arall.

**Gwau, knito ne rhwbeth wedyn?**

Glenda: Fi ‘di neud lot o jympyrs a pethach fel ‘nny chi’n gwbod. Fi’n neud charities wedyn ‘nny. O’dd Mrs Rowe yn gofyn bore ‘ma os o’dd wool ‘da fi i ga’l. By’n nhw’n ca’l mynd nawr, achos sa i’n gallu cytshon ynddyn nhw.

Annie: Wedodd y doctor wrthi ddi chwel am neud knito. A ma’ ddi ffaelau neud e nawr, fel therapi.

Glenda: Fi ‘di pyr’nny needles bach. Fi’n treial neud. O’n i’n neud blanced wedyn ‘nny a gwnio nhw i gyda ‘da’i gilydd.

**00.38.41: Fel patchwork ife. Ma’ rheina’n bert ondyw nhw?**

Glenda: Peth yn mynd lan i Mynydd Mawr lan man’na, jympyrs wedi mynd i’r hospital. A ma’ nhw’n gwerthu nhw’n yr hospital i ga’l charities.

Annie: O’t ti’n mynd â nhw i Prince Phillip ac o’t ti’n mynd â llawn cês. O’dd dim un yn dod nôl.

**Fentra i. Ma’ nhw’n bert iawn.**

Glenda: A chi’n gwbod, o’n i’n lico neud matinee coats a merched yn ca’l plant.

Annie: Ma’ rhyw fenyw fach yn neud, ma’ ddi wedi neud fifty o cardigans bach nawr, i blant bach. O’n i’n gweud pwy ddiwrnod, Glenda, a rhoi nhw.

Glenda: A bydde rhywun yn ca’l grandchild, ‘will you do me a little coat or something like that’.

**00.39.19: Ble o’dd hyn nawr, yn Morris Motors?**

Glenda: Yn Morris Motors. O’n i’n mynd â nhw wedyn, yn y carrier bag i’r dre, o’dd dim un yn dod gatre. O’dd matinee coats, a bonnets a popeth fel ‘na. ‘O, I like that. I’m taking those, I’m taking those’. O’dd dim un yn dod nôl.

**00.39.35: O’ch chi’n rhoi nhw, ne o’ch chi’n gwerthu nhw?**

Glenda: Na. O’n nhw’n rhoi rhwbeth i fi amdanyn nhw chi’n gwbod ife.

**Mae’n lot o waith.**

Glenda: Chi’n gorfod ca’l arian i ga’l wool ife. Ma’ wool yn brud.

**O’n nhw’n gwbod amdano chi, bod chi’n gallu.**

Glenda: Ambell i waith o’n i’n gweld crwt bach yn dre, ‘do you know,’ medde fe ‘this lady was doing all little baby clothes for you’. Fel ‘na o’n nhw’n gweud ‘tho i ife. Licen i ‘di dechre nôl neud nhw ‘to chi’n gwbod, ond fi ffaelau neud e chwel.

**00.40.05: Ma’ rhai nodwydde’n fwy caled na’i gilydd. Ma’r rhai haearn ‘na..**

Glenda: Sa i’n lico rheina. Ma’ digon o bethach ‘da fi nawr.

Annie: O’dd ych mam yn knito.

**O’dd.**

Annie: O’dd hi’n joio neud Arran.

**Bob nos.**

Annie: O’dd hi’n neud lot o Arran o’dd hi.

**O’dd. O’dd hi’n lico neud Arran.**

**Beth ych chi’n cofio fwy te, os chi’n gallu disgrifio beth o’ch chi’n joio fwya yn Morris Motors, beth bydde chi’n gweud.**

Annie: ‘Run peth â Glenda, neud y radiators, a pethach chi’n gwbod.

Glenda: Y cwmpni. Cwmpni neis o’dd fwya ‘da ni. Good company.

**00.40.42: O’ch chi’n cymysgu gyda pobol gwaith tu fas y gwaith te?**

Glenda: O’n, withe. O’n ni’n cwrdd â nhw’n dre chi’n gwbod ife. A mynd i ga’l dished fach o de, a rhwbeth fel ‘nny.

**Ble o’ch chi’n mynd i ga’l dished o de?**

Glenda: Rhyw gaffi bach. Ac os bydde hi’n ffein, wrth gwrs, o’dd dwy hen fenyw fach ‘da ni, dwy wha’r fach, o’dd un yn gwitho’n Morris Motors. Ac os bydde hi’n ffein, wrth gwrs, ishte mas yn dre wedyn yn y sete yn y dre. A gyda’r ddwy ‘na fan’na bydde chi all day.

O’dd y bys wedi mynd. A ma’ un fach wedi marw nawr, so sa i’n gwbod os ydyw’r still. A ma’ un ffrind fach ‘da fi, ma’n byw yn Felinfo’l.

Annie: Ingrid.

Glenda: German fach yw honna. Ma’ hi’n dod lan, yn amal i weld fi, ma’ hi’n dod lan.

Annie: Ma’i mab hi a canser arno fe. Fifty yw e. Peth od sa ddi wedi ffono fe ‘ddo.

Glenda: Bydd rhaid i fi ffono i weld shwd ma’ fe. A o’dd un fenyw fach arall wedyn ‘nny. German bach o’dd honna, ‘i mam, o’dd honna’n Morris Motors pan dechreues i ‘na, a o’dd honna’n good i chi. Helpu chi’n gwbod.

Annie: Ni still yn cadw in touch odyn ni. Achos ma’ lot wedi mynd nawr, so nhw moyn cwmpni chi.

**00.42.00: Chi’n gwbod pan o’ch chi’n dechre fan ‘na o’ch chi’n gorfod ca’l interview yn Morris Motors wedyn?**

Glenda: O’n ni’n mynd mewn i whilo am job.

Annie: O’n ni’n ca’l medical o’n i.

Glenda: Na.

**Ond o’dd job ‘da chi’n barod o’dd e?**

Glenda: Ffactri Ponthenri chwel, o’dd job fan’na.

**00.42.12: O’ch chi’n gwbod bod hon yn cwpla?**

Glenda: Wedon nhw ‘thon ni chwel. Wedodd hi ‘thon ni ‘i bod hi’n ceued.

**00.42.18: Pam o’n nhw’n ceued te?**

Annie: Dim ordors siwr o fod.

Glenda: Wedon nhw bod hi’n ceued lawr chwel.

**00.42.31: A shwd o’ch chi’n twmlo am hwanna?**

Glenda: ‘Run peth draw fan’na bod hi’n ceued ife. Gorfod mynd rhwle arall ife. Ethon ni lawr wedyn i whilo am job.

**Achos o’ch chi’n gorfod mynd tu fas y pentre wedyn.**

Glenda: Mas o’r pentre wedyn.

00.43.02

Glenda: Ethon ni mewn i interview nawr, a wedyn na diwedd ar y diwrnod 'na ife.

**00.43.06: O'dd y ddwy o' chi gyda'ch gilydd?**

Glenda: (TO ANNIE) O't ti ddim 'da fi pyr'nny o't ti?

Annie: Nagon. Weithies di two ne three years ar 'yn ôl i dofe.

**00.43.17: Ond pan ethoch chi mewn i ofyn am y job, ethoch chi gyda'ch gilydd achos o'ch chi'n gwbod bod hon yn cwpla.**

Annie: Na, i'n gwith pyr'nny o'n i.

Glenda: Ar ôl 'nny? Sa i'n cofia. Aeth y ddwy 'da'n gilydd dofe?

Annie: Sa i'n gwbod. Sa i'n cofio. Falle'n bod ni.

Glenda: Ethon ni i ga'l interview eniwê. A'th y bos bach hyn ife, a wedyn wedodd e 'solong' wedyn a bydden i'n ca'l gwbod wedyn chwel ife. O'dd hwnna acha dydd Mercher fi'n credu o'dd e. Ac o'n ni'n ca'l llythyr dydd Sadwrn, ne dydd Sul yn gweud 'you can start tomorrow'. O'n i'n mynd mewn fanna erbyn saith o'r gloch.

Annie: Ac o'dd Mami'n dishgwl ar y cloc trw'r amser, yn watshan ni'n dod gatre. Ac o'dd hi mor ffactori fowr chi'n gwbod, rhai bach o'dd rhain [Ponthenri] ife.

**00.44.09: O'dd e'n wahanol i fan hyn, i John Patterson te, lot mwy yn gwitho 'na.**

Glenda: O'dd.

**Ond shwd o'ch chi'n twmlo, o'ch chi'n gorfod trafeilu wedyn. O'dd e'n twmlo 'whith?**

Glenda: O'dd.

Annie: Amser o'dd eira wedyn, o'n i ffaelu mynd i'r gwaith.

Glenda: O'ch chi'n gallu dod gatre i gino man'co. O'ch chi ffaelu dod fan hyn o'ch chi.

Annie: O'n ni'n ffono mewn a gweud, 'sorry, we can't come in, we haven't got transport and we've got snow in Ponthenri.' 'You must be joking'. Rheina'n neud sbort yn dre wedyn.

O'n nhw'n mynd i'r gwaith a ni'n ffaelu mynd i'r gwaith.

**00.44.40: So nhw wedi gweld y tyle'n Ponthenri.**

Annie: Buon ni gatre am wthnos a gethon ni ddim cinog 'da nhw.

Glenda: Dethon ni is Cynheidre, a gorfod cerdded all the way gatre, o Gynheidre nôl i Bonthenri, yn yr eira 'na i gyd.

**00.44.53: Beth o'dd yn digwydd os o'ch chi'n colli gwaith achos yr eira?**

**O'ch chi ddim yn ca'l ych talu?**

Annie: Dim byd.

Glenda: Dim yn ca'l 'yn talu.

**O'dd e'n dipyn o golled.**

Annie: Wythnos gyfan gollon ni. A dim excuse. O'n i mas ar yr hewl, chi'n gwbod i weld os gelen i liff't 'da rhywun. Os na ele chi lan drw'r ysgol, you've had it. A tro Pontiets wedyn. O'n i ddim yn gwbod beth o'dd e pyr'nny.

Glenda: Wy'n gweud 'tho ti, bysus yw bysus. Os ydyn ni'n ca'l bachgen bach newydd, o'n i'n gweud, 'wait till the snow comes, you won't go up the square'.

**Shwd o'ch chi'n twmlo wedyn, o'ch chi'n mynd i Morris Motors, o'ch chi'n cwrdd â bobol wahanol wedyn?**

Glenda: Different, ie.

Annie: O'n nhw'n lyfli i witho 'da.

**00.45.37: Achos o’ch chi’n gweud o’r bla’n o’ch chi ddim yn gwbod ble o’dd e.**

Glenda: Na, o’n i ddim yn gwbod ble o’dd e. Gorfod cerdded mewn pishin chi’n gwbod. Gwedwch nawr o fan hyn draw is yr ysgol i fynd mewn i’r ffactori ble o’n i’n gwitho. Draw i’r section gwilod ‘na chi’n gwbod.

**Shwd o’ch chi’n twmlo’n cerdded mewn am y tro cynta?**

Annie: Nerfus o’n i ife.

Glenda: Nerfus.

Annie: Ac o’dd white coat yn mynd â ni wedyn i’r job.

**Pwy o’dd yn dangos chi wedyn beth i neud pan o’ch chi’n dechre?**

Glenda: Y supervisor ‘na. O’dd merch ‘da nhw’n dangos i ni beth i neud y job, a wedyn o’ch chi’n dysgu man’nny neud y job.

**O’dd dim apprenticeship ne dim byd.**

Glenda: Na. Dangos ar y ford fan’na, beth sydd i neud chi’n gwbod ife?

**A o’ch chi’n gweud bod targets gyda chi wedyn, o’ch chi’n ca’l ych talu wrth y target neu wrth yr awr?**

Glenda: Pan ddechreuon ni gynta o’ch chi’n talu wrth yr awr chi’n gwbod. A o’ch chi’n neud certain section, a gwedwch bod ishe neud thirty heddi nawr, i neud punt ne fel ‘na chi’n gwbod, wrth y target. Wel, cwplodd hwnna altogether wedyn a o’n ni’n ca’l ‘yn talu full day chi’n gwbod ife. Weekly wage o’dd yn dod wedyn.

**O’ch chi’n nabod rhai sections o’dd ffaelw bwrw target, o’ch chi ddim yn clywed am hwnna?**

Glenda: O’dd rhai’n ffaelw neud e, ond o’n nhw’n gweud oedd y stwff yn wael a pethach fel ‘nny.

Annie: O’n i fel ‘na. Un diwrnod gorfes i fynd lawr ‘na, lot o ni ‘da’n gilydd a boi wedi pigo arno i, a wedes i ‘ma’ lot o ni fan hyn nawr te’. O’dd y target yn terrible chi’n gwbod, o’dd y material yn terrible, nelech chi byth ohono fe.

Glenda: Y materials yn rili wael, i neud y targed chi’n gwbod ife.

**00.47.24: Beth o’dd yn bod ar y material te?**

Glenda: O’dd hi’n galed ambell i ddiwrnod i neud y targets chi’n gwbod ife.

Annie: Gwitho trw’r dydd a ffaelw neud e. A o’n i’n gweud ‘tho hwn, ‘fi’n cofio ti’n blydi dod ‘ma’ wedes i. ‘Tacla di ddi,’ wedes i a ‘wedyn byddi di ar ‘yn ôl i.’

**Ond shwd o’dd y supervisors yn gyffredinol?**

Glenda: O’n nhw’n gwd.

Annie: O’dd rhai o’ nhw’n od.

**Achos o’n nhw wedi bod yn neud yr un gwaith â chi cyn ‘nny rhywbryd. ‘Na fel o’n nhw wedi dysgu ife?**

Glenda: A dim ond un section buon ni’n gwitho chwel. O’dd rhai erill, o’dd Ann Conway, yn byw man’co, o’dd hi ar section arall.

**O’ch chi ddim yn symud ymbytu byth?**

Glenda: O'n i'n symud ford fach fan'na ond dim mas o section. O'dd y section yn fowr 'fyd chi'n gwbod. O'ch chi ddim yn nabod Ruby lan man'co o'ch chi,

Annie: Y Chip Shop?

Glenda: O'dd chip shop 'da ddi fan hyn blynydde nôl. O'dd Ruby 'na.

Annie: A Mabel.

Glenda: A Mabel.

Annie: O'n nhw'n gwitho 'da'i gilydd.

Glenda: Mewn section co o'n nhw'n dwy. A o'n ni'n y section hyn.

**00.48.40: O'ch chi'n gallu dewish pwy o'ch chi'n gwitho gyda, achos bennoch chi lan yn gwitho gyda'ch gilydd dofe?**

Glenda: O'ch chi'n gallu swapo. Falle bydde hi draw fan 'na heddi a byddet ti fan'na, ond yn yr un section.

**O'ch chi ffaelu mynd mas o'r section.**

Glenda: Na, dim ond section ni. A walle o'n nhw'n moyn withe i fynd i rwle arall i witho chi'n gwbod ife. Bues i'n gwitho 'da'r dynon un wthnos trw'r dydd.

**A shwd o'dd hwnna?**

Glenda: Gwd. O'n nhw'n sbwylo fi.

**O'ch chi'n rhoi trefen arno nhw siwr o fod.**

Glenda: Ac o'n nhw'n gweud 'tho fi, 'dere mla'n nawr, ma'n amser te nawr.' 'O, sa i'n moyn te'. 'Dere i ga'l te, ne ca'l brêc fach nawr o'dd e'n gweud 'tho fi'. O'dd y dynon yn gwd cofiwch.

**00.49.28: Beth os o'dd dyn bach ifanc yn dechre 'na, o'dd y menwod yn tynnu'i go's e?**

Glenda: O'n.

Annie: O'n. O'dd un o' nhw o'dd 'da ni, o'dd e'n un bach ffein. O'dd e'n blysho lan i gyd.

**O'dd hwnna'n hala'r menywod yn wa'th wedyn siwr o fod.**

Glenda: Hala fe'n wa'th, o'dd. O'dd y dynon yn gwd nagon nhw Annie. Ie, o'n i'n joio 'na.

**O'dd 'na unrhyw drics i bobol o'dd newydd ddechre 'na?**

Glenda: 'Run peth â nethon nhw i fi gyda'r bys chi'n gwbod. A hala rhai wedyn lan i ôl lla'th.

**Hala ôl lla'th?**

Annie: Fi'n cofio unweth o'dd white coat 'da ni, y tool setter, wedi gweud 'ti'n fodlon ordor nawr ..

Glenda: Sosej wedodd e.

Annie: Sosej and mash, nage, wedodd e banger. Ac o'n i ffaelu deall beth uffarn o'dd banger. Sosej o'dd e moyn, o'dd e moyn tost a sosej chwel, tost a banger. 'Pa liw yw hwnna', wedes i.

Glenda: A pan welodd y dyn 'na fi na'th y bys chi'n gwbod, pan welodd e'n wyneb i, 'wedodd e naf i ddim hwnna rhagor,' wedodd e.

**'Na ddysgu fe te?**

Annie: O’dd fenyw’n dod lawr chwel a gofyn os o’n i’n moyn rhwbeth o’r cantîn, a wedodd hi, ‘gofyna am tost a banger’. Beth uffarn yw banger. O’n i’n wherthin. ‘Sosej ti’n moyn ife’. ‘Ie.’

Glenda: O’dd un dyn bach ‘na’n gomical chi’n gwbod dofe. Nele fe rhwbeth i dynnu mischief ife. Ac o’dd e’n gweud ‘tho ni, ‘dere i ni ca’l mynd lan nawr, o’dd e’n gweud ‘tho Annie, i Felinfo’l i whilo bluebells’.

Annie: Poor bugger. A ma’ fe ‘di marw.

Glenda: Ma’r ddou bach o’ nhw wedi mynd nawr.

### **00.51.36: O’ch chi’n dueddol o aros mewn ‘na amser cino te, ne mynd mas?**

Glenda: Wel, o’s o’dd hi’n ffein chwel, o’n ni’n mas i fyta’n bwyd. O’n i’n mynd mas y bac i ishte fan’na.

### **O’dd e’n neis i ga’l brêc siwr o fod.**

Annie: O’n ni’n mynd â camera wedyn i dynnu llunie, wedyn ‘nny a pob tro o’n i’n tynnu llunie, o’n i’n ishte fan’na a twll yn y ffenest, ac o’dd y thing ‘na’n dod trwyddo fan’na bob tro.

### **Os rhai o’r llunie dal ‘dach chi nawr?**

Glenda: Ffaelu ffindo nhw, ‘na’r gwaetha. Ffaelu ffindo nhw.

Annie: Ma’ Glenda’n dodi pethach, a ffaelu cofio ble mae’n dodi pethach.

### **Dodi nhw’n saff ife?**

Glenda: Ie.

### **O’dd llunie ‘official’ yn ca’l ‘u tynnu o’r workers wedyn, o’dd hwnna’n digwydd ambell waith?**

Glenda: ‘Na’r unig llunie tynnon ni amser geson ni, beth ti’n galw nhw, beth iti’n galw rhain fan hyn, watsh.

Annie: O, ie. Twenty five years.

### **O’ch chi’n ca’l llun ‘fyd?**

Glenda: Llun y ..

Annie: grŵp i gyd.

Glenda; O’ch chi’n waitan chi’n gwbod, fan’na. A wedyn ‘nny o’dd y bos yn galw chi ‘mla’n, a rhoi y watsh i chi.

### **Ife’r big bos o’dd hwnna te?**

Glenda: Y big bos o’dd hwnna. Mr Riley o’dd yn tynnu’r llunie.

Annie: Geson ni bwffe biwtiffwl. Allech chi weud taw wedding o’dd ‘da chi ‘na.

Glenda: O’dd bwffe ‘da ni ‘na chi’n gwbod ife, popeth, ac o’n i ‘nawr yn allowed.

### **Achos bod chi wedi bod ‘na twenty five years.**

Glenda: Achos bod ni wedi bod ‘na twenty five years. Ac o’n i’n ca’l bwffe wedyn.

Annie: O’dd rhai’n forty years ‘na.

Glenda: Ac o’n i’n ca’l mynd â un (?) am ddim ond sen i’n moyn o’n i’n gallu mynd â dwy arall ond sen i’n gorfod talu am hwnna, popeth ‘na. Drincs.

Annie: O’dd disgo a popeth ‘na.

Glenda: Popeth am ddim ‘na ‘a nhw.

**Yn ble o’dd hwnna te?**

Glenda: Morris Motors, yn y cantîn.

**Yn y cantîn.**

Glenda: Yn y cantîn yn Morris Motors. O’dd caterers yn dod mewn i neud y bwyd.

Annie: O’dd e’n biwtiffwl. O’n i ddim yn gwbod beth i ga’l i fyta.

Glenda: Popeth.

**00.53.37: Sawl diwrnod yr wythnos o’ch chi’n gwitho?**

Glenda: Pedwar. Four days a week. Walle bydden nhw moyn rhywun mewn acha dydd Sadwrn.

Annie: Five o’n i’n gwitho.

Glenda: Five ife?

Annie: A dydd Sadwrn wedyn ‘nny, ‘na six ife.

Glenda: Yr unig beth os o’dd ishe mas â stwff ife, o’n i’n mynd mewn erbyn saith acha dydd Sadwrn. Ac o’n i’n cwpla am twelve o’clock. Half a day.

**O’ch chi’n ca’l y bys o fan hyn ar ddydd Sadwrn?**

Glenda: O’n. O’n.

**00.54.08: Y service bys.**

Glenda: Ie, ie. Bys yn dod i ôl ni.

**O’ch chi’n gorfod cloco mewn pan o’ch chi’n mynd mewn?**

Glenda: O’n. Cloco mewn yn y bore. A cloco mas yn y nos. A gwedwch nawr o’ch chi’n moyn cwpla’n gynnar ne rhwbeth, bydde chi’n gorfod mynd i’r offis a gofyn am ‘pass’. O’ch chi’n gorfod ca’l pass cyn mynd mas o’r gât, o’r ffactori, ac o’ch chi’n gorfod rhoi’r pass ‘na i’r dyn ‘na wedyn ‘nny, bod chi’n mynd mas chwel. O’dd e’n gofyn i chi, ‘Are you coming back?’

**Gwedwch chi bod chi eische diwrnod off, gwedwch chi bod e’n rhwbeth, er enghraifft fel angladd, o’ch chi’n gallu ca’l yr amser off?**

Glenda: O’n.

Annie: O’n nhw’n gwd cofiwch.

**00.54.57: O’ch chi’n ca’l ych talu am yr amser o’ch chi off wedyn?**

Annie: Na, o’n i ddim yn ca’l ‘yn talu.

Glenda: Geson ni ymbytu pythownos pan marwodd Mami? O’n i’n ca’l two days fi’n credu.

Geson ni rhwbeth eniwê. O’n nhw’n gwd yn rhoi time off i ni am hwnna, ishe mynd i’r hospital ne rhwbeth fel ‘na, no problem.

Annie: Pan o’n i gatre’n dost, o’n i home pythownos o dan doctor y gwaith. Doctor Ponthenri o’dd ‘da fi pyr’nny.

Glenda: O’dd doctor ‘da nhw.

Annie: Dr Eifion. Eifion Trehearne. A Christopher o’dd ei fab e. A ma’ fe still ‘na. Ond ma’ Eifion wedi marw fi’n credu.

**00.55.45: Beth o’dd yn digwydd ‘da rhai o’dd yn colli gwaith, chi’n gwbod, heb ishe?**

Annie: O’n nhw’n ca’l llythyron, nagon nhw.

Glenda: O’n nhw’n ca’l llythyron.



**Achos ma' rhai yn pob gwaith, yn colli'n regiwlar.**

Annie: Chi'n gwobod beth fi'n gweud, o'n nhw'n dod gatre o'r gwaith, ac o'n nhw'n mynd ar 'u holidês. Ma' hwnna'n rong chwel.

Glenda: O'n nhw'n ca'l warnings.

**O'dd rhai'n ca'l y sac te?**

Glenda: Na, sa i'n credu, o'dd e?

Annie: Fi'n cofio un ferch 'na, a bob holidê chwel, Christmas, o'dd hi'n gweud bod hi'n dost ac o'dd hi'n ca'l bytu dim pythwnos, mish off. Easter, holidês yr haf, o hyd fel 'na. Dim wthnos o'dd hi'n ca'l, mish. O'dd hi'n cymeryd mish off.

Glenda: Wel, yn section 'ni o'dd dim lot ar sic 'da ni o'dd e?

Annie: Nago'dd.

**Beth o'dd yn digwydd te, os o'dd rhywun off yn dost? O'ch chi'n ca'l rhywun yn 'u lle nhw, ne o'ch chi'n dod i ben â pethe hebddyn nhw.**

Glenda: Na.

**O'dd mwy o bwyse ar y rhai o'dd 'na wedyn.**

Glenda: O'dd.

**Os o'ch chi'n gorffod gwitho extra, o'ch chi'n gweud bod ordors a pethe, o'ch chi'n ca'l mwy o arian am neud hwnna?**

Glenda: Ar ddydd Sadwrn chwel.

**O'dd y rêd yn well?**

Glenda: Yn enwedig ar ddydd Sadwrn chwel ife. O'dd full day week yn yr wthnos, a wedyn os o'ch chi'n gwitho mla'n dydd Sadwrn, o'ch chi'n ca'l ych talu wedyn dydd Sadwrn.

**O'ch chi ddim yn ca'l fel time and a half ne rwbeth?**

Glenda.

**Beth oedd y bwyd fel, o'ch chi'n siarad am y cafeteria gynne, beth o'dd y bwyd fel yn y cafeteria?**

Annie: O'dd bwyd neis 'na.

Glenda: Lyfli.

**O'dd cino 'na o'dd e?**

Glenda: O'dd popeth 'na, popeth.

**O'ch chi'n ca'l cino 'na, ne o'ch chi'n mynd â sangwejes.**

Glenda: Na, o'n i'n mynd i ga'l cino weithie, mynd i ga'l chips.

Annie: 'Bytu hanner awr o'ch chi'n ca'l i gino, erbyn bo' chi'n mynd lan 'na, o'ch e'n amser i ddod nôl ife. Weithie o'n i'n mynd lan i ga'l chips a byta nhw ar y ffordd nôl.

Glenda: Byta nhw ar y ffordd nôl.

**00.57.40: O'dd dim lot o amser i ga'l chat na dim byd te.**

Glenda: Na. Nagodd.

**O'dd amser cino 'da chi te, o'dd brêc yn y bore?**

Glenda: O’dd un ‘da ni am half past nine. A wedyn o’dd chwarter awr bach ‘da ni am dri o’r gloch yn y prynhawn.

*Rhan dau*

### **00.00.01**

**Siarad am y bwyd o’n i nawr, a siarad am ga’l brêcs, ac o’ch chi’n ca’l hanner awr.**

Annie: Yn y bore.

Glenda: Twenty minutes i frecwest i ga’l, half past nine, wedyn twelve o’clock wedyn dofe, hanner awr fan’na, chwarter awr fach wedyn yn y prynhawn, three o’clock ife.

### **00.00.28: O’ch chi’n ca’l ych talu am holidês te?**

Glenda: O’n.

### **A Bank Holidays?**

Glenda: O’n.

### **00.00.37: Beth o’dd yn digwydd yn yr haf te, achos o’dd rhai llefydd, o’n nhw’n ceued lawr, yn yr haf?**

Glenda: O’n nhw blynydde nôl, o’n ni’n ca’l pythownos yn August, ife, a September wedyn o’dd wythnos ‘da ni amser y Blackpool. ‘Na’r ddwy ife.

Annie: Ie.

### **O’ch chi’n mynd i Blackpool?**

Glenda: O’n.

Annie: Amser o’dd mam yn fyw.

### **O’ch chi’n mynd fel teulu o’ch chi?**

Glenda: Dim ond ni’n dwy.

Annie: Fi’n cofio, o’n ni’n mynd bob blwyddyn, ac o’dd Mami’n gweud, ‘so chi’n mynd i Blackpool ‘leni te?’ ‘Nadw’. Ac o’dd yn wnewl i’n mynd pyr’nny. ‘Pam ten?’. ‘Achos so ni’n moyn mynd’. O’dd Mami’n dost pyr’nny.

Glenda: O’n ni’n ca’l day off, gwedwch Bank Holidays fel ‘na dofe. Ond ma’ nhw’n gorfod gwitho nawr fi’n credu. Fel mae e nawr, sa i’n gwbod.

### **Ma’ pethach wedi altro nagyn nhw. O’dd rhai o’r bobol yn gwitho ‘na yn mynd ar holidês gyda’i gilydd?**

Glenda: Fi’n credu bod e.

### **O’dd trips ambell waith ne ambell waith o’ch chi’n ca’l day trips, a rhai’n mynd?**

Glenda: Dim yn Morris Motors. O’dd dim trips man’nny. O’dd bysus Gwyn Williams i ga’l pyr’nny yn neud trips chi’n gwbod ife, day trips. Ma’ nhw wedi ceued lawr nawr.

### **Ma’ nhw wedi mynd nawr nagyn nhw?**

Glenda: Wel, so ni wedi bod ar day out ers sbel. Fi ffaelu mynd ar y bysus chi’n gwbod ife, ffaelu trafeilu so. Ma’ fe’n ddigon i fynd i Llanelli a Gaerfyrddin nawr. O’n ni’n mynd mas chwel ife, ni’n mynd mas.

### **00.02.24: Os o’ch chi’n gweud ‘tho rhywun bod chi’n gwitho’n Morris Motors beth o’dd barn pobol erill, beth o’n nhw yn meddwl chi’n gwbod?**

**Achos o'r gwaith o'dd i ga'l yn yr ardal pyr'nny o'dd Morris Motors yn big employer.**

Annie: O'dd neb yn gweud dim byd cas am Morris Motors.

Glenda: Na, na. Dim byd yn gas. O'n i'n gwitho'n Morris Motors a dim car 'da fi.

**00.02.55: O'ch chi'n neud y ceir. Chi o'dd yn neud y ceir ond o'dd dim car 'da chi.**

Annie: Sdim hi'n saff i ga'l car heddi.

Glenda: Dylen i 'di dysgu drifo blynydde yn ôl chwel. O'dd yn dad yn gweud, 'pam se ti'n mynd i ddysgu drifo, dysgu drifo'. 'Na, gad iddi fod. Fi rhy hen nawr'.

**O'dd Dadi ddim yn drifo chwel.**

Glenda: Nago'dd e. O'dd e'n cerdded pobman wedyn.

Annie: O'dd dy dad yn neis.

Glenda: O'dd bysus yn mynd bobman. Nawr ma' nhw ffaelw mynd o'r sgwâr man'co i fynd i'r tŷ. Ac yn enwedig pobol ifainc te, ma' rheina'n ca'l ceir, a so nhw'n gwitho. A ma' nhw'n gallu ffordo fe.

**Sa i'n gwbod fel ma' nhw'n gallu ffordo fe. Shwd penderfynoch chi cwpla'n y diwedd te, yn Morris Motors?**

Glenda: Es i'n dost chwel, a gorfes i gwpla yn 58 (mlwydd oed) cwplws i witho. O'dd dim job i ga'l chwel, o'dd 'yn gefen i 'di mynd chwel, a wedyn o'dd dim job i ga'l i fi'n eiste' lawr.

**Rhywbeth mwy ysgafn o'ch chi'n moyn ife?**

Glenda: Ie. Allen i ga'l job yn eiste lawr bydden i'n olreit chwel. O'n i ffaelw sefyll lan. Wel, o'dd dim job i ga'l 'da nhw. So, ges i chance i gwpla wedyn chwel. Two years o'dd 'da fi i fynd chwel ife. So gwplws i wedyn.

Annie: Withes i two years a dibennes i'n 56. Ac o't ti'n 58.

Glenda: Wedyn bues i ar y sic wedyn am two years jyst, a siwrne o'dd hwnna lan 'na fe wedi mynd, nôl i old age.

**A pryd penderfynoch chi (Annie) adel?**

Annie: 56 o'n i.

**O'ch chi wedi ca'l digon?**

Annie: Ethes i'n dost chwel. Ges i'r gall bladder operation 'na. O'n i ddim yn yr un peth wedyn 'nny chwel. So chi byth yr un peth ar ôl ca'l y gyllell.

**Ond o'dd Morris Motors, o'dd dim jobsys ysgafn i ga'l 'na.**

Annie: Nago'dd.

Glenda: Dim jobs.

Annie: Ma'n nefo'dd beth yw jobs nawr i beth o'n ni'n gorfod neud. Ma' popeth yn aliwminiwm nawr. Licen i ddim 'na.

Glenda: A ma' popeth yn press a button. De, ma' nhw'n neud radiators nawr, yn dechre lan fan'na, un dyn fan hyn a dod off fan'na. Machines mowr, mowr chi'n gwbod.

Annie: Allen i byth a gwitho lle ma'r steiff 'na.

Glenda: Sa i wedi mynd mewn o gwbl 'ddar 'nny.

**00.05.29: O'dd gwynt 'na te?**

Annie: Chi'n gwbod y radiators hyn nawr, o'dd gwynt aliwminiwm 'da nhw.

Glenda: O'n nhw'n mynd i gwcan nhw chwel, yn doddi mewn i sychu fan 'na, wel, o'dd gwynt y stwff 'na wedyn chwel. O'dd ambell i jobyn yn ..

Annie: yn terrible 'na.

Glenda: Gwa'th 'na i'r dynon. Yn dwym, dwym mewn 'na chi'n gwbod.

### **Lle o'dd y dynon?**

Glenda: Ie. O'dd e'n rili dwym mewn 'na.

### **O'dd dim menywod yn gwitho'n y llefydd 'na?**

Glenda: Galle menywod byth â gwitho mewn fan'na.

### **Ni wedi siarad tipyn dofe?**

Glenda: Fi 'di copo'n olreit heddi.

### **Os unrhywbeth chi'n gallu meddwl am, yn meddwl nôl am ych amser chi'n Ponthenri 'fyd, chi'n gwbod, a Morris Motors, os unrhyw beth arall liecech chi weud? Shwd o'dd y ddou le'n cymharu te? Shwd o'dd Ponthenri nawr, y lle'n itha bach...**

Glenda: O'dd e'n fach man'co chwel (Ponthenri) a man'co (Morris Motors) o'dd hi'n fawr, fawr chwel. O'dd e'n different mynd man'co, a mynd mewn man'co chwel.

### **Ble o'dd well 'da chi?**

Glenda: O'n i'n lico Morris Motors, ac o'n i'n lico man'co 'fyd. Setles i lawr yn y ddou man chi'n gwbod ife. Joio.

Annie: O'n i'n gweld hi'n whith i ddod o ffactori fach i ffactori fawr ife.

### **O'dd y rheole'n wahanol? O'dd y rules yn wahanol yn mynd o un lle i'r llall?**

Glenda: Nago'dd. O'dd menyw bach fan hyn. Dechreuodd hi'n y ffactori chi'n gwbod. Ac o'dd hi eisie mynd i'r toilet ac o'dd manajyr yn cerdded 'mla'n yn y ffactori chwel dofe.

### **O'dd hwn lawr fan hyn nawr?**

Glenda: Yn Ponthenri nawr ife. A siwrne o'dd hi'n gweld y bos mas man'co, ele hi ddim nôl, ele hi ddim mas o'r toilet. O'dd ofon arni ddi mynd i'r toilet achos o'dd dyn mas fan'na, y bos. O'dd hi'n meddwl bod e'n watshan hi.

### **O'dd hi'n ofon e?**

Glenda: O'dd ofon arni ddi chwel, o'dd hi ddim yn gyfarwydd.

Annie: Chi'n nabod Linda, Linda Owen ma'n byw ar bwys ych wha'r lan fan'na. Glenda: Nigel yw 'i brawd hi. A chi'n gwbod o'dd hi ddim yn gyfarwydd â mynd i ffactori chwel o'dd hi. 'Cer,' o'n i'n gweud 'tho thi. 'Cer, neith e ddim byd i ti'. 'Cer'. Ac o'n i fan'na amser Christmas.

### **O'dd hi'n shei ne beth?**

Glenda: Shei o'dd hi chwel, ofon.

Annie: O'n i'n gweud, 'Daf i mas 'da ti nawr'. O'dd lot yn moyn mynd i ga'l sigaret, pawb yn mynd mas i'r toilet.

Glenda: Mynd i'r toilet i hwnna. O'n nhw ddim yn ca'l smoco man'co chwel.

### **O'n nhw ddim yn ca'l smoking break ne rwbeth fel 'na?**

Glenda: Ie, o'n nhw'n mynd i'r toilet chwel. Ac o'dd e ddim yn gweld hi wedyn 'nny chwel.  
Annie: O'n i'n gweud 'thi, 'neith e dim byd i ti, cer'. Ond o'dd rhai'n hala shwd gymint o sbel, o'dd e Glenda.

**00.08.32: O'dd rhywun yn mynd i whileo nhw wedyn te?**

Glenda: Wel, o'n i'n treial copo'n poto hebddyn nhw ife.

**O'ch chi ddim yn ca'l percs lawr fan hyn (Ponthenri) te, gan bod nhw'n neud llieini, o'ch chi ddim yn ca'l discownt ne rwbeth fel 'na.**

Glenda: O'dd lot o beth ti'n galw 'da ni, o'n ni'n ca'l peth newydd. Ceson ni un satin gwyn yw e.

Annie: Water lilies.

Glenda: A lilies arno fe.

Annie: O'dd lot yn pyrny amser o'dd rhywun yn priodi, i ddodi ar y fordydd.

**Yr unig beth yw chi'n ofon iwso nhw wedyn.**

Glenda: O'n nhw'n neud speshals lan chwel, tri o nhw. Wel, o'n nhw'n mynd nôl wedyn, o'n nhw'n dod nôl ac o'n i'n ca'l chance i byrnu nhw chwel, i byrnu nhw.

**00.09.25: O'dd lliain plaen ac o'ch chi'n printo nhw?**

Glenda: O'n ni'n printo nhw fan'na'n plaem, ac o'dd y machine yn dod wedyn, y rhai bach 'ma, two, three, four, y pedwar lliw fan'na nawr te. O'dd y machine bach hyn yn dod wedyn fel 'na lan, a printo nhw fel 'na. O'ch chi'n mynd lan y row 'na gynta. O'dd bytu wyth 'da chi groes y ford, all the way lawr, llanw fan 'na gynta, mynd nôl a honna, dod nôl â un arall lliw arall a nôl â honna fel 'na nes bod chi'n cwpla â'r lliw.

**O'dd y gwaith 'na tipyn yn wahanol i Morris Motors?**

Glenda: Duw o'dd.

**O'ch chi'n ffindo hwnna'n fwy o straen?**

Glenda: Dim rili, na. O'dd e'n rhwyddach man'co chwel. O'ch chi'n cerdded trw'r dydd fan hyn.

**O'dd e'n rhwyddach yn Morris Motors achos o'ch chi'n aros mewn un man.**

Glenda: O'ch chi'n eishte mewn un man man'na chwel ife.

Annie: Y beth ti'n galws 'na o'dd yn bert, y water lilies 'na.

**00.10.29: O'dd rhai'n gwnïo 'na 'fyd te?**

Annie: O'dd machines 'da ni 'na.

Glenda: O'dd bytu whech machine 'da ni 'na.

**00.10.40: Faint o'dd yn gwitho lawr man'na te?**

Glenda: Mwy 'na bytu five hundred siwr o fod. A wedyn siwrne o'n nhw wedi ca'l ei gwnïo wedyn o'dd jobyn fi i sieco nhw i weld os o'dd fault arnyn nhw, a wedyn os bydde fault arno fe, o'n i'n towlu fe mas wedyn 'nny.

**00.11.07: O'ch chi'n gwbod pwy o'dd wedi neud e os o'dd fault arno fe?**

Glenda: O'dd, o'dd. O'n i'n gwbod. Ar y ford chwel. Os bydde marc fan'na byddech chi ddim yn ca'l dod fel mewn wedyn.

**O’dd hwnna’n wast wedyn.**

Glenda: Ody.

Annie: O’n nhw’n towlu nhw mas yn seconds wedyn. Ac o’dd pobol yn gallu pyrnu nhw wedyn chwel.

**Ond faint o amser o’dd e’n hala i byrnu lliain te?**

Glenda: ‘Bytu cwarter awr. Ma’ hwnna (lliaian) wedi dala’i liw yn dda ondywe.

**Ydy. Beth yw oedran hwnna nawr?**

Glenda: Ma’ fe’n dod o ffactori Ponthenri. 1966 gethes i dod o manco. Ac o’n i’n fourteen manco. Ma’ hwn yn hen.

Annie: Pob tro fi’n iwso’ lliain ma’ Glenda’n sarnu te arno fe.

**‘Na beth ma’ lliain yn dda. Bennwn ni fan ‘na. Diolch yn fawr.**

### *English summary*

**John Patterson Factory, Ponthenri (also known as John Pattinson Factory and Fairwearweather Works); Morris Motors, Felinfoel Llanelli (1952 – 1980s)**

**Interviewee: VSW003 Glenda Magritte Lewis (and Annie Lewis)**

**Date: 11.11.13**

**Interviewer: Susan Roberts on behalf of Women’s Archive of Wales**

Glenda confirms her name and address and her date of birth as 14th May 1938.

#### **00.00.31:**

Glenda and Annie were both born at home in Ponthenri in the house where they still live. Their father was a miner in Tymbel, Cynheidre and Nantyllyon (Llynfi Valley). Glenda went to school in Ponthenri. She left aged 14 and went to work in a factory in Ponthenri which made tablecloths (John Patterson), and from there to Morris Motors.

Glenda’s first job was making tea in the canteen. After a week she was moved into the factory itself, printing tablecloths. Glenda and Annie describe the process of printing and drying the tablecloths. It involved a lot of walking back and forth – walking all day. It was a long day but Glenda enjoyed it.

Glenda was able to walk to work and workers from further afield would arrive by car or service buses.

#### **00.05.23:**

Glenda remembers her first pay was just short of £4, which she gave to her mother and received £3 in pocket money. Annie remembers their mother only asking for money towards their lodgings.

**00.06.30:**

Glenda recalls with fondness the company of her co-workers especially the men who worked with the paint and hanging/drying the cloth. The women mainly did the sewing work and folding and cutting.

There was no union. If there was a grievance the workers came to an agreement with the management.

**00.07.48:**

Most of the women were young and there were no shifts. They worked from 7am – 4pm and sometimes until 6pm if needed.

Glenda recalls that the tablecloths were beautiful and were exported far and wide. Annie particularly remembers a satin cloth and a water lily pattern.

**00.09.12:**

The factory was light and clean.  
Annie, who also worked there, was a cutter.

But Glenda spent most of her working life at Morris Motors, making car radiators for 35 years.

Annie followed her sister to Felinfoel (Morris Motors) but returned to Ponthenri and worked at the Alkaline Battery factory for 9 months before being made redundant and returning to Morris Motors.

**00.12.22:**

Glenda thinks there was a better atmosphere in Felinfoel as there were approx. 1000 people working there as opposed to some 250 at John Patterson.

There was an equal amount of men and women and they worked in different sections.

**00.12.51:**

The men's work was more physically demanding/heavy work.

There was also a union at Morris' and weekly dues were deducted from the girls' pay. Annie would have completed 35 years' service like Glenda had she not returned to Ponthenri. She was ill for 2 years with gall-bladder problems.

When she returned they both worked side by side and some workers had difficulty telling one from the other.

**00.15.32:**

They both recall mischievous characters – one, a labourer, who planted fake snakes and spiders in the parts boxes. One of the girls received a terrible shock, threw all the parts all over the shop and screamed the place down.

There was another man who frightened Glenda when she was new at the factory. He had a fake finger and carried it over to her pretending it had just been cut off. When he saw the effect on Glenda who'd turned pale, he vowed never to play any tricks again.

**00.17.06:**

Glenda was left-handed and had to have a left-handed work table. When visitors came to the factory they'd always be brought to see Glenda who was somewhat of a novelty.

There was no music at work as the rollers were very noisy.

Glenda and Annie worked together with about 6 or 7 others. They all got on very well with each other. If one worker fell behind her target, the others would all help her.

They were able to sit whilst assembling the radiators but had to stand up to "tube" them. Glenda can't recall if she was tired after a shift.

Married women would work on until they had children.

Glenda only worked one week of night shifts – to help finish a particular order.

They travelled to work by bus or were given a lift in a car. For a shift starting at 7.30am they caught a 6.45am bus from Ponthenri. Sometimes they'd leave at 5.30am on a double decker bus. Sometimes the bus would also be taking miners into work at Cynheidre.

Glenda remembers one bus journey into work in the snow. Everyone went upstairs to see the views. The bus skidded and they couldn't find Teresa, one of the girls. She'd fallen downstairs. She wasn't hurt and they all had a lot of fun.

**00.24.55:**

Glenda tries to remember how much she was paid.

She outlines changes to the method of paying wages. (direct payments to banks)

**00.26.15**

The sisters spent most of their wages on food. They also liked buying clothes.

**00:26.35**

Glenda remembers having a party in the factory after working the last day before Christmas. It came about because people used to smuggle booze into work on the last day, then drink it before going into town and cause trouble. So a party in the factory was then permitted. Everyone brought food into work and it was laid on a large table.

**00.27.31:**

It was all good fun.

Annie remembers them having a lovely party when they retired. Glenda recalls they were both presented with watches for 25 years' service.

They believe that the company was very good to them - when their mother was dying, they sent a car to take them home from work.

**00.28.32:**

English was the main language spoken in the factory, but Welsh speakers usually conversed in Welsh.

At one time, lunch was eaten on the factory floor, but that practice was stopped and food was consumed in the canteen.

During the early morning shift, breakfast was ordered and brought onto the factory floor as a buffet.

Glenda remembers when the Chinese (Japanese delegation?) came. She was surprised that they ate in the canteen with everybody else.



**00.30.25:**

After Glenda had finished working at the factory, she happened to call in and ended up with a gold paperweight (shown to the interviewer) to celebrate the factory's 40th year. Everybody was given a paperweight and a bottle of champagne which Glenda still has somewhere at home.

**00.32.10:**

The company provided the workers with green overalls. They weren't allowed to wear sandals. They wore hard toe-caps and gloves to protect their hands from cuts and acid.

**00.34.20:**

Glenda remembers when workers used to smoke while working. She recalls the stink of cigarettes being on the components supplied to her. She would sometimes sprinkle talcum powder to mask the smell. If somebody lit up a cigarette near Annie's station she'd tell them to "put that cigarette away."

Despite the smell of cigarettes the factory was kept clean.

**00.37.28:**

Glenda reiterates how she enjoyed her working days especially because of the company of good friends at work. She's still in touch with colleagues from Morris Motors.

**00.37.57:**

Glenda never got bored with work and could switch-off from it as soon as she finished for the day.

She knitted sweaters and blankets and donated them to hospitals to be sold for charity.

Glenda and Annie would sometimes meet up with fellow workers. They'd go to a café in Llanelli or sit out and chat in fine weather.

**00.42.00:**

Before working at Morris Motors, Glenda was at John Patterson (Ponthenri) but the workforce there had been warned that the factory was about to close because of dwindling orders. Glenda interviewed at Morris Motors one Wednesday and received a letter over the weekend asking her to start on Monday. The sisters can't remember if they interviewed at the same time.

**00.44.09**

There were obvious differences between the 2 factories – Morris Motors was much larger with a workforce of thousands rather than hundreds, Glenda couldn't just pop home for lunch and when there was extreme weather like snow, it could be difficult if not impossible to get to work at all.

Annie and Glenda both recall missing a whole week of work because of the snow in Ponthenri. Of course, Llanelli was clear so most people were able to get to work as usual but Annie and Glenda didn't get paid for the week they lost.

**00.45.37**

They recall their first days at Morris Motors – both were very nervous. What struck them was the size of the factory and how far they had to walk to reach the section where they were to work. A supervisor (white coat) walked them in and showed them how to do the job.

At first they were paid by the hour and were set targets. Later on they were paid for a full day and received a weekly wage. Sometimes the targets were unrealistic and people complained. The supervisors were good on the whole.

#### **00.48.40**

Glenda and Annie worked in the same section. They sometimes swapped tables within the section. Glenda even went to another section and worked with the men for a week. They spoiled her.

At Morris Motors, Glenda heard the word “banger”, meaning a sausage, for the first time. A tool setter asked her to order a piece of toast and a banger for him. Not knowing what a banger was, she asked him: “what colour is that?”

#### **00.51.36**

Sometimes in fine weather some of the workers would go outside to eat their lunch. They’d sit out the back and Annie, who had a camera, would take photographs. Unfortunately she can’t remember the whereabouts of her photographs.

They also remember an official photograph being taken at work on the occasion of their presentation for 25 years’ service. They were each presented with a watch and a lavish buffet was laid on in the canteen (outside caterers). Annie compares the occasion to a wedding reception.

#### **00.53.37**

They worked 5 days a week and Saturday mornings when required.

They had to clock in and out. If for any reason they needed to finish early they had to get a “pass” from the office and present it at the main gate in order to be let out. If they needed time off for a funeral it was granted “no problem” (without pay). When their mother died, they were off work for a fortnight and they got 2 days’ pay.

Some would take time off work (sick?) and then go away on holidays. Annie remembers one particular girl who was always ill around Christmas, Easter or summer holidays. So instead of a fortnight or a week – she would always take a month off.

Annie and Glenda are proud to report that not many people from their section were ever off sick. There were no replacements for those off sick and the work fell to those left behind. However, they were paid extra if they had to work on a Saturday morning to finish extra work.

The food in the canteen was “lovely” according to Glenda. There was a wide choice, but unfortunately there was never enough time to enjoy a long lunch. Workers had ½ hour break and by the time they’d reached the canteen it was almost time to return to work. There wasn’t enough time to have a good chat/gossip.

**00.58.01**

They also had a break at 9.30am (20 minutes for breakfast) and another for ¼ hour at 3pm.

**00.58.37**

As far as paid holidays were concerned the factory used to close down for a fortnight (last week of July and 1<sup>st</sup> week of August) and also there was a week in September when they went to Blackpool. They also had days off on Bank holidays.

*Part two***01.00.24**

Morris Motors was a major employer in the Llanelli area. Annie remembers that nobody criticized the company.

Glenda points out the irony that she worked there for many years (making parts for cars) and didn't own a car herself. Her father encouraged her to learn to drive but she never did – and now it's too late. Annie doesn't think that Glenda's safe to put behind the wheel of a car now.

**01:01:40**

Glenda finished working at Morris Motors when she developed a bad back when she was 58. She couldn't stand for long periods to work and there were no jobs that could be done sitting down. She left the factory, had 2 years "on the sick" until her old age pension started.

Annie left when she was 56. She was never the same after her gall-bladder operation. "You're never the same after going under the knife."

At the time, there were no light jobs at the factory. Today it's different. Annie thinks the work is far easier today as "everything is aluminium now." Glenda says that one man makes radiators by pressing a button and letting big machines do all the work.

The old factory was smelly, but Annie couldn't stand the smell of hot aluminium.

**01:04:42**

When comparing John Patterson with Morris Motors, Glenda enjoyed working in both factories. She felt equally settled. Annie however found moving from a small factory to a very large one, difficult.

Glenda recounts a story about a girl working at Patterson's who was so frightened of the manager that she couldn't come out of the toilet.

The workers (Ponthenri) printed tablecloths and any that didn't pass quality control were sold as seconds. They also produced special editions and if they weren't sold or ordered, the workers had an opportunity to purchase them.

Annie and Glenda bought a white satin cloth with a water lily pattern.

**01.07.25**

Glenda briefly outlines the printing process.

It was very different work from that in Morris Motors. But Glenda found it harder because she was constantly walking back and forth all day whereas in Morris Motors she worked at her station/table.

**01.08.29**

Annie recalls the sewing machines at John Patterson.

Once the tablecloths had been sewn it was Glenda's job to inspect them and reject any mistakes.

It usually took about ¼ hour to print a tablecloth.

Glenda refers to their lily cloth: "this has kept its colour well.."

Annie: "Every time I use this tablecloth, Glenda spills something on it!"